

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR ARCHWILIO

CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU: CANOLFAN Y CELFYDDYDAU GWELEDOL

ADRODDIAD 05-02 – Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 19 Mehefin 2002 yn unol ag adran 102 (1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Cynnwys	Paragraff
Cyflwyniad	1
Penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol	8
Y ffordd yr aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i fonitro'r gwaith o ddatblygu, rhedeg a chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol	22
Crynodeb o argymhellion	35
Sylwadau clo	36

Atodiadau

Atodiad A – Trafodion Perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion Tystiolaeth (dydd Iau 22 Tachwedd 2001)

Atodiad B – Trafodion Perthnasol y Pwyllgor – Cofnodion Tystiolaeth (dydd Iau 13 Rhagfyr 2001)

Atodiad C – Llythyrau dyddiedig 27 Tachwedd 2001 a 6 Rhagfyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru

Atodiad D – Llythyr dyddiedig 29 Tachwedd 2001 gan Mr Matthew Pritchard, Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan y Celfyddydau Gweledol

Atodiad E – Llythyrau gan Mr Emyr Jenkins (dyddiedig 18 Rhagfyr 2001), Ms Joanna Weston (dyddiedig Rhagfyr 2001), Mr Robert Edge (dyddiedig 20 Rhagfyr 2001) a Syr Richard Lloyd Jones (dyddiedig 7 Ionawr 2002)

Atodiad F – Sylwadau dyddiedig 7 Chwefror 2002 gan Mr Peter Tyndall, Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru ar y dystiolaeth lafar a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Mr Emyr Jenkins, Ms Joanna Weston, Mr Robert Edge a Syr Richard Lloyd Jones

Atodiad G – Llythyr dyddiedig 27 Mawrth 2002 gan Mr Emyr Jenkins ar sylwadau Mr Tyndall

Atodiad H – Llythyr dyddiedig 3 Mai gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn ymateb i'r pryderon a leisiwyd gan Mr Emyr Jenkins, Ms Joanna Weston, Mr Robert Edge a Syr Richard Lloyd Jones

Atodiad I - Llythyr dyddiedig 14 Mai 2002 gan Mr Emyr Jenkins mewn ymateb i'r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru dyddiedig 3 Mai 2002

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â rôl Cyngor Celfyddydau Cymru o ran darparu arian loteri a chymorth grant ar gyfer prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y prosiect loteri mawr cyntaf i Gyngor Celfyddydau Cymru ei gefnogi. Dychmygwyd y byddai'n atyniad pwysig i dwristiaid, fel y lle mwyaf yng Nghymru ar gyfer arddangos y gorau o blith gweithiau celf cyfoes a hanesyddol o Gymru ac o wledydd eraill, gydag oriel ryngweithiol hefyd i blant. Fe'i lleolwyd yn yr Hen Lyfrgell, adeilad Fictorianaid mawr yng nghanol Caerdydd.
2. £8.8. miliwn oedd cyfanswm y gost o agor y Ganolfan, gan gynnwys y gwaith adnewyddu sylweddol i adeilad yr Hen Lyfrgell. Cyfrannodd Cyngor Celfyddydau Cymru dros £3.2 miliwn o arian loteri tuag at y swm hwn (sef tua 37 y cant o'r costau i gyd). Rhoddodd y Cyngor hefyd dros £200,000 y flwyddyn i helpu i ariannu costau rhedeg blynyddol y Ganolfan. Agorodd y Ganolfan ei drysau i'r cyhoedd ym mis Medi 1999. Oherwydd anawsterau ariannol a achoswyd yn bennaf am fod nifer yr ymwelwyr gryn lawer yn is na'r disgwyl, caeodd y Ganolfan 14 mis wedi hynny ym mis Tachwedd 2000.
3. Ar sail adroddiad a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru¹, derbyniwyd tystiolaeth gan Mr Peter Tyndall, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru. Cynorthwywyd Mr Tyndall gan Ms Francis Medley, Dirprwy Brif Weithredwr, a chyn Brif Weithredwr Dros Dro Cyngor Celfyddydau Cymru; a Mr Rhys Parry, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Cyngor y Celfyddydau.
4. Oherwydd y pryderon a oedd gennym am y ffordd yr aeth Cyngor y Celfyddydau ati i ddelio â'r prosiect hwn ers i'r arian loteri cyntaf gael ei roi ym 1995, a'r cyfnod cymharol fyr y bu Mr Tyndall yn ei swydd, cynhaliwyd ail gyfarfod i gymryd tystiolaeth gan unigolion a oedd ynghlwm wrth y prosiect yn y dyddiau cynnar. Derbyniwyd tystiolaeth gan Mr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, a oedd hefyd yn Swyddog Cyfrifo Cyngor Celfyddydau Cymru o Medi 2000 i Medi 2001. Clywsom dystiolaeth hefyd gan Mr Emyr Jenkins, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-1998; Ms Joanna Weston, Cyfarwyddwr Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-98 a Phrif Weithredwr 1998-2000; Mr Robert Edge, Cyfarwyddwr Loteri, Cyngor Celfyddydau Cymru 1998-2001; a Syr Richard Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-99. Rydym yn derbyn bod y bobl hyn, ac eithrio Mr Shortridge, bellach yn unigolion preifat heb unrhyw ran ym materion cyfredol Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod nad oedd modd iddynt weld holl gofnodion Cyngor Celfyddydau Cymru nac ychwaith friffiau a chyngor staff Cyngor y Celfyddydau.

¹ Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol*, a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 15 Tachwedd 2001

Rydym felly'n ddiolchgar iddynt am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio i gyflwyno'u safbwynt ar y gwersi sydd i'w dysgu o'r prosiect hwn.

5. Efallai ei bod yn anochel, fodd bynnag, o gofio faint o amser sydd ers i'r syniad am y prosiect hwn ddod i'r amlwg, bod peth anghytuno wedi bod ynghylch rhai manylion mewn perthynas â'r ffordd y bu Cyngor Celfyddydau Cymru yn goruchwyllo'r prosiect hwn. Soniodd Mr Jenkins, Ms Weston, Mr Edge a Syr Richard Lloyd Jones wrthym am rai camau a phenderfyniadau a oedd, o'r hyn a gofient, wedi'u cymryd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ond nad oeddent yn amlwg o'r cofnodion a oedd ar gadw gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, mae pawb yn gytûn bod prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi methu yn y pen draw am nad oedd wedi gallu denu cymaint o ymwelwyr â'r disgwyl. Felly collwyd y buddsoddiad o £3.7 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y prosiect hwn i'r celfyddydau yng Nghymru.
6. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y ddau brif fater a ddeilliodd o'n hymchwiliad:
 - penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol; a'r
 - y ffordd yr aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i fonitro'r gwaith o ddatblygu, rhedeg a chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol.
7. Mae'r adroddiad yn nodi'n canfyddiadau a'n casgliadau o dan y prif themâu hyn. Rydym hefyd yn gwneud nifer o argymhellion a fydd, gobeithio, yn helpu Cyngor Celfyddydau Cymru a chyrrff eraill sy'n rhoi grantiau i ddysgu gwersi o'r prosiect hwn.

Penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru i ariannu Canolfan y Celfyddydau Gweledol

8. Dros y cyfnod 1995 – 2000, rhoddodd Cyngor Celfyddydau Cymru arian loteri i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ar dri achlysur, a oedd yn werth dros £3.2 miliwn i gyd, ynghyd â chymorth grant refeniw o bron i £500,000.² Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y penderfyniadau a gymerwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ariannu prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Yn benodol, mae'n archwilio'r prif ffactorau a arweiniodd at anawsterau ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol, sef nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd; y rhaglennu ar gyfer y Ganolfan; lefel yr arbenigedd yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol; diffyg nawdd preifat; a'r amcangyfrifon gwael o ran costau adeiladu. Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd, cwmni cyfyngedig drwy warant â statws elusen,

² Adroddiad ACC, paragraff 2.2 a Ffigur 6

oedd yn gyfrifol am ddatblygu, rhedeg a gweinyddu Canolfan y Celfyddydau Gweledol.³

Nifer yr ymwelwyr a ragwelwyd

9. Roedd hyfywedd ariannol Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn dibynnu ar dros chwarter miliwn o bobl yn talu am gael gweld ei harddangosfeydd yn y flwyddyn gyntaf, gan godi i ryw 340,000 y flwyddyn erbyn blwyddyn deg. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, dim ond 47,000 o ymwelwyr, sef un rhan o bump o'r nifer a ragwelwyd, ddaeth i'r Ganolfan yn ystod ei blwyddyn gyntaf. Yr oedd amcangyfrif yr ymgeisydd o nifer yr ymwelwyr yn deillio o astudiaeth ddichonoldeb a gynhaliwyd ym 1992, tua tair blynedd cyn gwneud y cais cyntaf am arian loteri ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Roedd yr astudiaeth ddichonoldeb wedi defnyddio gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr ym 1991 ag amrywiaeth o amgueddfeydd ac orielau tebyg ynghyd ag ymchwil ddemograffig ar duedd y boblogaeth leol i ymweld ag atyniadau cefyddydol.⁴ Rydym yn nodi bod yr aseswyr allanol a benodwyd i werthuso'r prosiect hwn wedi cyngori Cyngor Celfyddydau Cymru fod yr amcangyfrif hwn yn un call.⁵ Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod Cyngor y Celfyddydau wedi cwestiynu dibynadwyedd y rhagolygon hyn neu, yn fwy pwysig, efallai, ei fod wedi gofyn i'r ymgeisydd ynghylch hyfywedd ariannol y prosiect pe na bai'n llwyddo i gyrraedd y targedau hyn.⁶ Dim ond yn gynnar yn 2000, ar ôl i'r Ganolfan agor a phan oedd eisoes yn wynebu anawsterau ariannol ac yn chwilio am fwy o arian, y gofynnodd Cyngor Celfyddydau Cymru am fwy o arian cyhoeddus. Dyma pryd, sef yn 2000, y cymerwyd camau gan Gyngor y Celfyddydau, drwy gomisiynu adolygiad annibynnol i ystyried yr opsiynau ar gyfer sicrhau dyfodol ariannol mwy diogel i'r Ganolfan.⁷
10. Yn ôl y Swyddog Cyfrifo presennol, roedd niferoedd yr ymwelwyr yn uchelgeisiol am sawl rheswm: lefel yr optimistiaeth ynghylch y prosiect; roedd niferoedd yr ymwelwyr yn dibynnu ar artistiaid llwyddiannus iawn; nid oedd yr amgueddfeydd a'r orielau a ddefnyddiwyd i gymharu yn ddibynadwy; ac ni chymerwyd i ystyriaeth ddemograffeg y dalgylch ehangach.⁸ Yn bendant, roedd niferoedd yr ymwelwyr â'r amgueddfeydd a'r orielau cymharol yn amrywio'n fawr, ac roedd rhai yn sylfaenol wahanol i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol o ran y math o gelfyddyd a oedd yn cael ei arddangos, ac

³ Adroddiad ACC, paragraffau 1.8 ac 1.9

⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 2.6 – 2.8

⁵ Cwestiynau 7 a 15

⁶ Adroddiad ACC, paragraffau 2.10 a 2.16; Cwestiynau 1 a 6; Llythyr gan ACC, paragraffau 15 – 17 (Atodiad G)

⁷ Adroddiad ACC, paragraff 1.12

⁸ Cwestiynau 2 a 4

o ran polisi prisio. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu defnyddioldeb fel cymaryddion arwyddocaol.⁹Yn ogystal, nid oedd yr ymchwil ddemograffig a ddefnyddiwyd i amcangyfrif nifer yr ymwelwyr â Chanolfan y Celfyddydau Gweledol yn cynnwys unrhyw arolygon o'r bobl a oedd yn byw o fewn y dalgylch, neu'n ymweld â'r dalgylch, i gael syniad gwell o ba mor dueddol oedd y boblogaeth leol i ymweld ag orielau. Yr oedd hefyd yn seiliedig ar nifer sylweddol o dybiaethau nad oedd wedi'u herio. Er hynny, dangosodd yr ymchwil ddemograffig bod y boblogaeth leol dipyn yn llai tebygol o ymweld ag orielau na'r cyfartaledd cenedlaethol, a dylai hynny fod wedi codi amheuan pellach ynghylch dibynadwyedd y niferoedd amcangyfrifedig a nodwyd yn y cais am grant.¹⁰

11. Rydym yn derbyn y pwynt a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol ei bod, yn y bôn, yn anodd iawn darogan nifer yr ymwelwyr, a phwynt Ms Weston, sef nad gwyddoniaeth mo hyn.¹¹Ond ymddengys nad oedd asesiad Cyngor Celfyddydau Cymru o nifer amcangyfrifedig yr ymwelwyr yn ddigon trylwyr, ac mae hyn yn destun pryder i ni.¹² Mewn perthynas â swm o faint a natur yr un a roddwyd i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, rydym o'r farn y dylai unrhyw gorff sy'n rhoi grant ofalu bod ei benderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth ddemograffig mwy manwl a chyfoes, ac y dylid herio'n fwy unrhyw dybiaethau sy'n sail i niferoedd amcangyfrifedig ymwelwyr.
12. Gofynnwyd i bob un o'r tystion a ymddangosodd ger ein bron a oeddent yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau neu lobio a allai fod wedi effeithio ar y graddau yr archwiliwyd y prosiect hwn gan Gyngor y Celfyddydau. Fe'n sicrhawyd, gan y dystiolaeth a ddarparwyd gan y tystion nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro o'r fath a bod y ceisiadau am arian loteri ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi bod drwy weithdrefnau asesu safonol y Cyngor.¹³
13. Rydym yn cydnabod bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn y broses o ddysgu llawer yn sgil cyflwyno'r arian loteri newydd ym 1994, ac nad oedd gan ei staff brofiad o ddelio â phrosiectau o'r maint hwn.¹⁴ Rydym hefyd yn nodi, er gyda pheth pryder, y sylwadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sef nad yw'r anawsterau hyn yn unigryw a'i fod, fel y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol, wedi tynnu sylw at broblemau tebyg mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar rai prosiectau loteri cynnar.¹⁵

⁹ Adroddiad ACC, Ffigurau 7 ac 8, paragraffau 2.10 a 2.11; Cwestiynau 17 a 21

¹⁰ Adroddiad ACC, paragraffau 2.13 - 2.16

¹¹ Adroddiad ACC, paragraff 2.10; Cwestiynau 214 a 238

¹² Cwestiynau 13, 14 a 40

¹³ Cwestiynau 130, 131 a 304 - 308

¹⁴ Cwestiynau 5, 191 a 309

¹⁵ C244

Rydym yn falch o glywed bod Cyngor Celfyddydau Cymru ers hynny wedi ceisio sicrhau bod ceisiadau loteri yn cael eu hasesu'n fwy gofalus er mwyn dysgu gwersi o'i brosiectau loteri cynnar. Yn arbennig, rydym yn nodi'r sicrwydd y mae Swyddog Cyfrifo presennol Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i roi, sef bod gweithdrefnau cyfredol Cyngor Celfyddydau Cymru yn golygu bod niferoedd amcangyfrifedig ymwelwyr yn cael eu harchwilio'n fwy trylwyr, a phe bai'r ffigurau yn y cais am Ganolfan y Celfyddydau Gweledol yn cael eu cyflwyno ger eu bron heddiw, na fyddent yn cael eu derbyn.¹⁶ Hefyd, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn comisiynu asesiad annibynnol o'i weithdrefnau ar gyfer delio â cheisiadau loteri.¹⁷

14. Roedd Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn atyniad newydd nad oedd wedi'i brofi, ac eto er mwyn bod yn hyfyw yn ariannol roedd angen iddo ddenu nifer anghyrraeddadwy o ymwelwyr a oedd yn talu. Mewn gwirionedd, roedd nifer amcangyfrifedig yr ymwelwyr dros 500 y cant yn rhy uchelgeisiol. O edrych yn ôl, mae'n amlwg i ni nad oedd Cyngor y Celfyddydau wedi archwilio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ddigon trylwyr nac wedi herio'r wybodaeth honno'n ddigonol. Ymddengys nad oedd y Cyngor yn ymwybodol bod cyrraedd y nifer gofynnol o ymwelwyr yn gymaint o risg allweddol i hyfywedd ariannol y prosiect. Maes o law, daeth y risg hon yn llawer rhy real.
15. **Rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru, fel rhan o'r adolygiad annibynnol y mae wedi'i gomisiynu ar ei weithdrefnau, yn ystyried pa mor ddigonol yw ei asesiad o risg mewn perthynas â phrosiectau loteri. Yn arbennig, dylai archwiliad trylwyr o'r prif risgiau sy'n allweddol i hyfywedd ariannol prosiectau, gan gynnwys nifer yr ymwelwyr sy'n debygol o ymweld ag atyniadau celfyddydol newydd, fod yn rhan annatod o'r gwaith o asesu pob cais am arian loteri. Rydym hefyd yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar gael rhag ofn y daw'r risgiau i hyfywedd ariannol y prosiect yn realiti.**

Newidiadau allweddol i'r prosiect

16. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi rhai newidiadau allweddol wrth i'r prosiect gael ei ddatblygu, sef y newid i'r strwythur codi tâl mynediad ar ymwelwyr, i'r rhaglen agoriadol a chynnwys Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Erbyn i'r Ganolfan agor i'r cyhoedd ym 1999, roedd y taliadau mynediad wedi codi o'r cynnig gwreiddiol o £2.00 pris llawn i £3.50; ac o'r pris rhatach o £1.00 a

¹⁶ Cwestiynau 3, 5, 6 a 269

¹⁷ Cwestiynau 154 a 180

gynigiwyd ar gyfer plant, pobl ddigyflog a phlant, i £2.50.¹⁸ Roedd hyn yn gynydd mawr a fyddai'n anochel o effeithio ar rifau ymwelwyr.

17. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na'r Swyddog Cyfrifo presennol wedi gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth yng nghofnodion Cyngor Celfyddydau Cymru i esbonio'r rhesymeg a oedd yn sail i'r newidiadau hyn nac i ddangos bod y Cyngor wedi ystyried effaith bosibl y prisiau hyn ar nifer yr ymwelwyr a oedd wedi'u darogan a hyfywedd ariannol y prosiect.¹⁹ Ar ôl ei holi, nid oedd Mr Jenkins yn siwr ai'r cwmp yn nifer yr ymwelwyr a barodd i'r pris gael ei godi neu ai'r cynnydd yn y pris a arweiniodd at gwmp yn nifer yr ymwelwyr.²⁰ Fodd bynnag, dyma'r math o faterion y byddai disgwyl i Gyngor Celfyddydau Cymru fod wedi'u cofnodi a byddai disgwyl iddo hefyd fod wedi trafod y materion hyn yn fanwl gyda'r ymgeisydd. **Rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru, yn y dyfodol, yn cadw nodiadau manwl ar ei ystyriaeth o faterion sylfaenol fel y berthynas rhwng tâl mynediad a nifer yr ymwelwyr mewn perthynas â phrosiectau y mae'n bwriadu rhoi arian loteri ar eu cyfer. Rydym hefyd yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn asesu ei bolisiau cadw cofnodion cyffredinol er mwyn sicrhau bod cofnod digonol yn cael ei gadw o benderfyniadau a thrafodaethau allweddol y Cyngor ynghylch prosiectau loteri.**
18. Y syniad gwreiddiol oedd y byddai Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn gartref i arddangosfeydd o'r radd flaenaf gan feistri fel Picasso, Matisse neu Mondrian. Fodd bynnag, artistiaid cyfoes modern, gan mwyaf, a gynhwyswyd yn y rhaglen derfynol.²¹ Pan holwyd a oedd hyn yn adlewyrchu newid ymwybodol mewn polisi neu gamddealltwriaeth o'r term celfyddydau gweledol cyfoes, yr oedd y dystiolaeth yn anghyson. Dywedodd Mr Jenkins wrthym nad oedd unrhyw newid yn y rhaglennu ond fe fyddai wedi bod angen dwy neu dair blynedd ar Ganolfan y Celfyddydau Gweledol i baratoi ar gyfer arddangos gweithiau'r artistiaid byd-enwog y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth ddichonoldeb.²² Fodd bynnag, er mwyn denu cymaint o ymwelwyr â'r disgwyl, ymddengys yn glir i ni y byddai angen i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol fod wedi arddangos y math o arddangosfeydd ysgubol a danlinellwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb o'r cychwyn cyntaf. Ac fel y nododd y Swyddog Cyfrifo presennol, roedd Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi bod yn ei swydd am bedair blynedd cyn agor y Ganolfan, a dylai hynny fod wedi bod yn ddigon o amser i sicrhau agoriad ysgubol

¹⁸ Adroddiad ACC, paragraffau 2.20 - 2.24

¹⁹ Adroddiad ACC, paragraffau 2.21, 2.23 a 2.24; Cwestiynau 56, 60, 61 a 98

²⁰ C241

²¹ Adroddiad ACC, paragraff 2.22

²² Cwestiynau 247 a 248

i'r Ganolfan.²³ Os nad oedd rheolwyr cynharach Cyngor Celfyddydau Cymru yn credu bod hyn yn bosibiliad rhesymol, rydym yn synnu na chwestiynodd y Cyngor yr ymgeisydd ynghylch effaith bosibl arddangos gwaith artistiaid llai adnabyddus ar nifer tebygol yr ymwelwyr. **Rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru, yn y dyfodol, yn monitro'n fwy gofalus unrhyw newidiadau i natur yr atyniadau sydd i'w cynnig gan brosiectau y mae'n rhoi arian loteri ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod canlyniadau refeniw posibl newidiadau a gyflwynir ar ôl i grantiau loteri gael eu cymeradwyo yn cael eu harchwilio'n briodol.**

Pryderon ynghylch lefel yr arbenigedd yn y Ganolfan a diffyg nawdd preifat

19. Tynnwyd sylw at rai gwendidau yn y prosiect gan yr aseswr allanol a gyflogwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru i asesu'r ceisiadau am arian loteri ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Cyfeiriodd at y diffyg o ran arbenigedd marchnata ac argymhellodd bod angen i'r ymgeisydd, Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd, benodi rhywun â mwy o brofiad o reoli atyniadau i ymwelwyr.²⁴ Tynnodd sylw Cyngor Celfyddydau Cymru at y pryderon ynghylch lefel yr arbenigedd yn y Ganolfan o ran denu nawdd preifat. Cyngor yr aseswr annibynnol oedd y byddai'r prosiect yn llai dibynnol ar niferoedd uchel o ymwelwyr pe bai modd perswadio cwmnïau i noddi arddangosfeydd unigol. Ei gyngor i'r Ymddiriedolaeth oedd y dylai benodi rheolwr datblygu i ddenu mwy o nawdd preifat.²⁵ Tynnodd Mr Jenkins a Ms Weston sylw at y ffaith bod Cyngor y Celfyddydau wedi anfon adroddiad yr aseswr at yr ymgeisydd fel ei fod yn gallu gweithredu ar yr argymhellion hyn.²⁶ Fodd bynnag, ni roddodd Cyngor y Celfyddydau bwysau ar yr ymgeisydd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn. Roedd yr adolygiadau annibynnol a gynhaliwyd wedyn yn dal i fynegi pryder ynghylch marchnata'r Ganolfan a diffyg nawdd preifat.²⁷ **Rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru nid yn unig yn tynnu sylw'r ymgeisydd at y gwendidau a nodir gan ei aseswr annibynnol ond ei fod, fel rhan o'i waith yn monitro'r prosiect, yn cymryd camau cadarnhaol a chynnar i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn.**

Amcangyfrifon o gostau adeiladu

²³ Cyflwyniad ysgrifenedig Peter Tyndall i'r Pwyllgor Archwilio [cyf. 248] (Atodiad E)

²⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 2.25 a 2.27

²⁵ Adroddiad ACC, paragraff 2.29

²⁶ Cwestiynau 229 a 234

²⁷ Cyflwyniad ysgrifenedig Peter Tyndall i'r Pwyllgor Archwilio [cyf. 229] (Atodiad E); a llythyr gan ACC, paragraffau 18 – 20 (Atodiad G)

20. Roedd y grant loteri cyntaf, sef £2 miliwn, a roddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol, yn seiliedig ar gynlluniau a chostiadau annigonol. Cymeradwyodd y Cyngor y cais hwn am arian loteri ar sail darluniau cynnar pensaer, neu gam B Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). O ganlyniad, dim ond amcangyfrifon bras o'r costau adeiladu oedd ar gael. Am fod y cynlluniau gwreiddiol a'r amcangyfrifon o'r costau adeiladu ar gyfer Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn annigonol, roedd yn rhaid newid y cynlluniau sawl gwaith rhwng 1995 a 1997, gan olygu cynnydd o fwy na £1.8 miliwn yng nghost yr adeilad. Ymhlith y newidiadau hyn yr oedd uwchraddio gosodiadau, drysau mewnol, cyntedd gwydr, ac eitemau ychwanegol megis TG nad oeddent wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwreiddiol. O ganlyniad, gwnaeth yr ymgeisydd gais am fwy o arian loteri a chafodd £723,000 yn rhagor o arian grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Unwaith y darparwyd yr amcangyfrifon mwy trylwyr hyn, llwyddwyd i gwblhau'r gwaith adeiladu o fewn y gyllideb, gan mwyaf.

28

21. Rydym yn nodi bod Cyngor Celfyddydau Cymru bellach wedi cydnabod nad yw'n ddoeth rhoi arian grant ar sail darluniau cynnar. Dywedodd y Swyddog Cyfrifo presennol a Ms Weston wrthym fod y Cyngor wedi cryfhau ei weithdrefnau yn sylfaenol er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto. Mae ceisiadau am fwy na £100,000 a dderbynnir gan Gyngor Celfyddydau Cymru bellach yn destun proses archwilio tri cham, lle mae'r cais yn cyrraedd cam D RIBA, sy'n golygu darluniau llawn gan bensaer ac sy'n rhoi syniad llawer mwy cywir o gostau.²⁹ Mae'n anffodus nad oedd y broses hon yn ofynnol adeg y cais cyntaf ac mae'n hanfodol ei bod yn cael ei defnyddio'n llawn gyda phob cais yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y gweithdrefnau wedi'u cryfhau **ac yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei drefniadau archwilio er mwyn sicrhau bod yr angen am eitemau fel offer TG yn cael ei gydnabod yn llawn a'i gostio'n iawn pan fo cais yn cael ei gyflwyno am arian loteri.**

Y ffordd yr aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i fonitro'r gwaith o ddatblygu, rhedeg a chau Canolfan y Celfyddydau Gweledol

22. Unwaith yr oedd Cyngor Celfyddydau Cymru wedi penderfynu rhoi'r swm cyntaf roedd yn ddyletswydd arno i fonitro'r buddsoddiad hwnnw er mwyn sicrhau bod yr arian loteri yn cael ei ddiogelu. Fel rhan o hyn, dylai fod wedi sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio i'r dibenion y'i

²⁸ Adroddiad ACC, paragraffau 2.31 a 2.32 a Ffigur 10

²⁹ Cwestiynau 70 a 288

bwriadwyd, asesu a monitro'r risgiau a oedd ynghlwm wrth y prosiect a sicrhau bod y prosiect yn llwyddo fel y gobeithiwyd.³⁰

Asesu risg prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol

23. Rydym yn cydnabod y pwynt a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol nad oes unrhyw brosiect a ariennir gan arian loteri yn ddi-risg ac yn cydnabod mai'r hyn sy'n allweddol yw bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn rheoli'r risgiau hyn yn briodol i ddiogelu arian loteri. Fodd bynnag, nid asesodd y Cyngor y risgiau allweddol i'r prosiect ac ni ddatblygwyd cynllun wrth gefn y gellid ei weithredu pe bai'r risgiau hyn yn dod yn realiti. Roedd y risg o lai o ymwelwyr na'r disgwyl yn llawer rhy real ond tan fod y prosiect yn methu nid oedd neb wedi ystyried beth ddylid ei wneud pe bai hynny'n digwydd.³¹ Fel y nododd y Swyddog Cyfrifo presennol, roedd y dadansoddiad sensitifrwydd a gynhaliwyd ar arian amcanol Canolfan y Celfyddydau Gweledol yn gyfyngedig i amrywiad o ddeg y cant, dadansoddiad bras iawn. Rydym yn cytuno â Mr Tyndall y dylid bod wedi gofyn yn gyson i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol ddangos y gallai ddenu incwm o ffynhonnell arall neu leihau ei wariant pe bai unrhyw risg i hyfywedd ariannol y prosiect.³² Dywedodd Ms Weston wrthym nad oedd asesiad llawn o'r risg a oedd ynghlwm wrth brosiectau loteri yn orfodol bryd hynny, ond bod Cyngor Celfyddydau Cymru wedi dysgu o'r camgymeriad hwn ac y byddai wedi bod yn fwy defnyddiol cael asesiad llawn o risg.³³
24. Mae pawb a oedd yn rhan o'r prosiect wedi dweud wrthym fod y ffaith na wnaed asesiad manwl o risg yn ffactor a arweiniodd at fethiant Cyngor Celfyddydau Cymru i ddiogelu ei fuddsoddiad yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol. Pe bai asesiad o'r fath wedi'i wneud, byddai'r Cyngor wedi bod yn fwy ymwybodol o'r risgiau a ddaeth yn realiti maes o law a gellid bod wedi paratoi cynlluniau wrth gefn i reoli'r risgiau hyn. **Rydym yn argymhell y dylai cynllun busnes unrhyw brosiect o'r maint hwn gynnwys proses asesu risg lawn ynghyd â chynlluniau wrth gefn realistig sydd wedi'u datblygu'n llawn.**

Y ffordd yr aeth Cyngor Celfyddydau Cymru ati i fonitro prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol

³⁰ Adroddiad ACC, paragraff 3.5

³¹ Adroddiad ACC, paragraffau 3.5 a 3.7

³² Cwestiynau 8 ac 89

25. Mae'r gwaith monitro y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei wneud mewn perthynas â phrosiect loteri yn allweddol yn yr ystyr ei fod yn ffordd o sylwi ar broblemau posibl fel bod modd eu hosgoi neu eu datrys yn gyflym. Mae'r Cyngor yn gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus am arian loteri ddarparu adroddiadau rheolaidd ar hynt y prosiect. Penododd y Cyngor berson annibynnol hefyd i fonitro ac adrodd yn ystod cyfnod adeiladu prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol.³⁴
26. Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru drafferth wrth geisio cael gwybodaeth gyfoes gan yr ymgeisydd am brosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol drwy gydol y cyfnod adeiladu a hefyd unwaith yr oedd yn agored i'r cyhoedd. Effeithiodd hyn ar allu'r Cyngor i fonitro'r prosiect yn effeithiol.³⁵ Rydym yn cytuno â Mr. Tyndall y dylid cael cytundeb cyfreithiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn arian loteri i ddarparu'r wybodaeth y mae ar Gyngor Celfyddydau Cymru ei hangen i fonitro prosiectau'n iawn a sicrhau bod yr arian cyhoeddus sydd wedi'i fuddsoddi ynddynt yn ddiogel.³⁶
27. Rydym hefyd wedi clywed tystiolaeth anghyson ar y gwaith monitro a wnaed gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar y prosiect arbennig hwn. Mae'n glir mai prin iawn yw'r cofnod ysgrifenedig ffurfiol o waith monitro. Nid oedd y Swyddog Cyfrifo presennol yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth bod unrhyw gamau wedi'u cymryd yn dilyn adroddiadau'r aseswr annibynnol ac nid oedd yn credu bod y trefniadau monitro yn ddigon trylwyr.³⁷ Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i gweld yn dangos bod y gwaith monitro wedi bod yn dameidiog dros gyfnod hir y prosiect, gan arwain yn y pen draw at anawsterau yn ystod camau olaf y prosiect.
28. Un enghraifft o'r problemau a all godi pan nad oes digon o fonitro'n cael ei wneud yw'r ddarpariaeth o le storio. Nid oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymwybodol o newid yn nyluniad Adeilad yr Hen Lyfrgell. Nid oedd yn yr adeilad ddigon o le storio diogel, a oedd wedi'i gynnwys yn y cynlluniau cam D a gyflwynwyd i'r Cyngor gyda'r ail gais am arian loteri ym 1997. Roedd y lle hwn yn hanfodol os oedd yr oriel yn mynd i allu trefnu arddangosfeydd o statws cenedlaethol a rhyngwladol.³⁸ Ceisiodd Ms Weston esbonio nad oedd colli'r lle storio diogel hwn yn broblem anorchfygol ar gyfer yr arddangosfeydd celf a gynhaliwyd yn y Ganolfan.³⁹ Gallai, fodd bynnag, fod wedi effeithio ar y

³³ C310

³⁴ Adroddiad ACC, paragraffau 3.3 a 3.4

³⁵ Adroddiad ACC, paragraff 3.11

³⁶ C100

³⁷ Llythyr gan ACC, paragraffau 24 a 25 (Atodiad G); Cwestiynau 97 i 99

³⁸ Adroddiad ACC, paragraff 3.12

³⁹ Llythyr gan Joanna Weston (Atodiad D)

defnydd a gâi ei wneud o'r adeilad yn y dyfodol. **Rydym yn argymhell bod Cyngor y Celfyddydau yn rhoi ar ddeall i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael arian loteri, ar ddechrau pob prosiect, na ddylent newid y cynlluniau gwreiddiol heb hysbysu'r Cyngor yn llawn ymlaen llaw.**

29. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn tanlinellu nifer o achosion lle methodd Cyngor Celfyddydau Cymru â chymryd camau yn sgil y pryderon a leisiwyd gan y rhai a oedd yn monitro prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol ynghylch hyfywedd ariannol y prosiect, er i un o'r rhybuddion hyn gael eu rhoi tua'r adeg yr oedd y Cyngor yn ystyried rhoi arian loteri am y trydydd tro (a gymeradwywyd yn ddiweddarach) i'r Ganolfan.⁴⁰ Mae dau bryder mawr yn deillio o hyn: yn gyntaf, os nad yw'r Cyngor yn gweithredu yn sgil pryderon ynghylch prosiect, yna mae'r prosiect hwnnw'n debygol o wynebu anawsterau; ac yn ail, mae'r Cyngor yn methu â sicrhau gwerth am yr arian y mae wedi'i dalu am gyngor proffesiynol annibynnol.
30. Yr ydym o'r farn mai un o'r prif broblemau gyda phrosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol oedd y ffaith nad oedd gan Gyngor Celfyddydau Cymru systemau monitro ac adrodd ffurfiol digonol. Nid yw'n ddigon rheoli prosiectau o gof a phrin iawn oedd y dystiolaeth ddogfennol o unrhyw waith rheoli prosiect trylwyr. Tynnwyd sylw at y diffyg rheoli a monitro hwn gan Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd a ysgrifennodd at Gyngor Celfyddydau Cymru i'w atgoffa nad oedd yr amserlenni monitro byth wedi'u darparu gan gydnabod nad oedd hyn yn helpu.⁴¹ Mae hyn yn hollol annerbyniol ac **rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn datgan yn glir, ar ddechrau pob prosiect, pa wybodaeth ddylai'r ymgeisydd am arian loteri ei darparu a pha mor aml y dylid darparu'r wybodaeth honno. Dylai'r gofynion hyn gael eu nodi mewn cytundeb cyfreithiol rwymol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ymgeisydd. Os nad yw ymgeisydd yn glynu wrth y gofyniad hwn, yna dylid dal yr arian yn ôl.**

Cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol

31. Erbyn i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol agor ym mis Medi 1999, roedd ganddo ddiffyg ariannol o £360,000 cyn i ymwelydd groesi'r trothwy. Pan nad oedd niferoedd yr ymwelwyr ar gyfer y flwyddyn gyntaf ond yn 47,000, o'i gymharu â'r 250,000 amcangyfrifedig, roedd y Ganolfan yn wynebu methdaliad. Pan redodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol i anawsterau ariannol, nid oedd gan

⁴⁰ Adroddiad ACC, paragraffau 3.13 a 3.14

⁴¹ Llythyr gan ACC, paragraff 24 (Atodiad G)

Gyngor Celfyddydau Cymru y ffeithiau i gyd, roedd yn cael anhawster cael y ffeithiau i gyd wrth yr ymgeisydd ac nid oedd ganddo gynllun gweithredu i oresgyn y problemau ariannol.⁴²

32. Ym Mawrth 2000, cymerwyd nifer o gamau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i geisio goresgyn problemau'r Ganolfan: trwy ddarparu grant refeniw atodol o fwy na £50,000; gorfodi nifer o amodau grant refeniw llym ar y Ganolfan; a chomisiynu adroddiad ar ddyfodol ariannol y Ganolfan. Roedd yr adroddiad hwn yn pwysleisio bod angen £350,000 yn fwy o gymorth ariannol bobl blwyddyn os oedd y Ganolfan yn mynd i barhau i weithio fel yr oedd wedi bod yn ei wneud. Er gwaethaf yr hwb ariannol gan ei brif noddwyr, nid oedd y Ganolfan yn gallu codi digon o incwm i dalu'i gostau rhedeg a chaeodd ym mis Tachwedd 2000.⁴³
33. Dan yr amodau safonol sydd ynghlwm wrth bob rhodd loteri, gall Cyngor Celfyddydau Cymru fynnu bod arian loteri yn cael ei ad-dalu os yw'r sawl sy'n derbyn yr arian hwn yn gorffen gweithredu, yn cael ei ddyfarnu'n fethdalwr, yn mynd i law'r derbynydd neu'n dod i ben. Cytunodd Cyngor y Celfyddydau i beidio â galw'r ddarpariaeth ad-fachu i rym mewn perthynas â'r rhodd loteri, ar yr amod bod asedau a oedd wedi'u noddi gan arian loteri yn cael eu trosglwyddo i fudiadau elusennol trydydd parti.⁴⁴ Pe baent wedi ceisio adfer yr arian, esboniodd Mr Shortridge, byddai'r Ymddiriedolaeth wedi dod i ben a byddid wedi cael arwerthiant o ychydig iawn o asedau yr oedd modd eu gwerthu. Roedd o'r farn y byddai'n well sicrhau bod modd parhau i ddefnyddio'r asedau hyn i'r dibenion y'u cafwyd yn wreiddiol.⁴⁵ Ar ôl cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol, aeth Adeilad yr Hen Lyfrgell ar ei newydd wedd yn ôl i Gyngor Sir Caerdydd. Rydym yn nodi bod Cyngor y Celfyddydau, ers hynny, wedi newid ei weithdrefnau, fel ei fod yn awr yn mynd i godi tâl am yr adeilad ar gyfer pob cynllun loteri mawr, a fydd yn ei alluogi i adennill ei asedau.⁴⁶
34. Pan dderbyniodd Cyngor Celfyddydau Cymru restr lawn o asedau a oedd wedi'u noddi gan arian loteri, bron i chwe mis ar ôl i'r Ganolfan gau, nid oedd sôn am sawl eitem. Mae asedau gwerth £103,600 bellach wedi'u rhoi i sefydliadau celf eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw bron i £110,000 o eitemau a ariannwyd yn rhannol gan Gyngor y Celfyddydau o restr Canolfan y Celfyddydau Gweledol wedi'u hadennill, yn bennaf am eu bod yn eitemau nad oes modd eu symud yn hawdd o adeilad Hen Lyfrgell Caerdydd. Mae tua £20,000 o asedau, cyfarpar TG ac offer adeiladu, gan mwyaf, wedi mynd

⁴² Adroddiad ACC, paragraffau 3.15 a 3.16

⁴³ Adroddiad ACC, paragraff 3.16

⁴⁴ Adroddiad ACC, paragraff 3.17

⁴⁵ C352

⁴⁶ C152

ar goll neu wedi'u gwerthu i staff.⁴⁷ Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrthym bod yr Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau ei bod wedi gwneud pob ymdrech i geisio adennill yr asedau coll hyn.⁴⁸ **Rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ddiogelu unrhyw fuddiant sydd ganddo mewn unrhyw asedau sy'n weddill pan fo prosiect sydd wedi derbyn arian loteri yn methu.**

Argymhellion

35. Yng ngoleuni'r canfyddiadau a'r casgliadau hyn, rydym yn argymhell bod Cyngor Celfyddydau Cymru:

- i) fel rhan o'r adolygiad annibynnol y mae wedi'i gomisiynu ar ei weithdrefnau, yn ystyried pa mor ddigonol yw ei asesiad o risg mewn perthynas â phrosiectau loteri. Yn arbennig, dylai archwiliad trylwyr o'r prif risgiau sy'n allweddol i hyfywedd ariannol prosiectau, gan gynnwys nifer y bobl sy'n debygol o ymweld ag atyniadau celfyddydol newydd, fod yn rhan annatod o'r gwaith o asesu pob cais am arian loteri;
- ii) yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn digonol ar gael rhag ofn y daw'r risgiau i hyfywedd ariannol y prosiect yn realiti;
- iii) yn cadw nodiadau manwl ar ei ystyriaeth o faterion sylfaenol fel y berthynas rhwng tâl mynediad a nifer yr ymwelwyr mewn perthynas â phrosiectau y mae'n bwriadu rhoi arian loteri ar eu cyfer;
- iv) yn asesu ei bolisiâu cadw cofnodion cyffredinol er mwyn sicrhau bod cofnod digonol yn cael ei gadw o benderfyniadau a thrafodaethau allweddol y Cyngor ynghylch prosiectau loteri;
- v) yn monitro'n fwy gofalus unrhyw newidiadau i natur yr atyniadau sydd i'w cynnig gan brosiectau y mae'n rhoi arian loteri ar eu cyfer, er mwyn sicrhau bod canlyniadau refeniw posibl newidiadau a gyflwynir ar ôl i grantiau loteri gael eu cymeradwyo yn cael eu harchwilio'n briodol;
- vi) nid yn unig yn tynnu sylw'r ymgeisydd at y gwendidau a nodir gan ei aseswr annibynnol ond ei fod, fel rhan o'i waith yn monitro'r prosiect, yn cymryd camau cadarnhaol a chynnwys i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r pryderon hyn;
- vii) yn adolygu ei drefniadau archwilio er mwyn sicrhau bod yr angen am eitemau fel offer TG yn cael ei gydnabod yn llawn a'i gostio'n iawn pa fo cais yn cael ei gyflwyno am arian loteri;

⁴⁷ Adroddiad ACC, paragraffau 3.17 - 3.19, Ffigur 11

⁴⁸ C155

- viii) yn sicrhau, ar gyfer unrhyw brosiect o'r maint hwn, bod y cynllun busnes yn cynnwys proses asesu risg lawn ynghyd â chynlluniau wrth gefn realistig sydd wedi'u datblygu'n llawn;
- ix) yn rhoi ar ddeall i ymgeiswyr sy'n llwyddo i gael arian loteri, ar ddechrau pob prosiect, na ddylent newid y cynlluniau gwreiddiol heb hysbyu'r Cyngor yn llawn ymlaen llaw;
- x) yn datgan yn glir, ar ddechrau pob prosiect, pa wybodaeth ddylai'r ymgeisydd am arian loteri ei darparu a pha mor aml y dylid darparu'r wybodaeth honno. Dylai'r gofynion hyn gael eu nodi mewn cytundeb cyfreithiol rwymol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a'r ymgeisydd. Os nad yw ymgeisydd yn glynu wrth y gofyniad hwn, yna dylid dal yr arian yn ôl;
- xi) yn adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau bod camau prydlon yn cael eu cymryd i ddiogelu unrhyw fuddiant sydd ganddo mewn unrhyw asedau sy'n weddill pan fo prosiect sydd wedi derbyn arian loteri yn methu.

Sylwadau clo

1. Roedd cau Canolfan y Celfyddydau Gweledol ar ôl dim ond 14 mis yn golled fawr i Gaerdydd ac i Gymru. Mae'r £3.7 miliwn a fuddsoddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn y Ganolfan yn arian sydd wedi'i golli i brosiectau celf eraill yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod cyflwyno arian loteri wedi golygu newid mawr yng ngweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru, gan fwy na dyblu'r arian a ddosberthir i'r celfyddydau yng Nghymru, ac mae'n amlwg nad oedd gan Gyngor y Celfyddydau y profiad i fynd i'r afael â phrosiectau cyfalaf o'r maint hwn. Mae wedi dysgu llawer o wersi dros y degawd diwethaf o ganlyniad i'r camgymeriadau a wnaed mewn perthynas â'r arian loteri hwn a roddwyd yn gynnar.
2. Ni ddilynodd Cyngor Celfyddydau Cymru arferion gorau drwy asesu'r ceisiadau'n drylwyr a monitro'r prosiect drwy'r cyfnod datblygu ac ar ôl iddo agor. Ni wnaeth yn siwr bod y prosiect yn seiliedig ar achos busnes cadarn, realistig a chall, ond derbyniodd yn hytrach ffigurau'n seiliedig ar ymchwil yr ymgwymerwyd ag ef ryw dair blynedd yn ôl cyn cyflwyno'r cais cyntaf am arian loteri. Nid aeth Cyngor y Celfyddydau ati i herio dibynadwyedd y ffigurau o ran nifer amcangyfrifedig yr ymwelwyr, nac i ystyried hyfywedd ariannol y prosiect pe na bai'n cyrraedd y targedau hyn. Yn ogystal, roedd y cynlluniau a'r amcangyfrifon o ran adeiladu yn annigonol, cymaint felly fel bod cynnydd o £1.8 miliwn yng nghost yr adeilad.
3. Rydym yn cytuno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, sef bod elfen o risg ym mhob prosiect. Nid dweud yr ydym y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ac eraill sy'n dosbarthu arian loteri osgoi cefnogi prosiectau sydd â risg ynghlwm wrthynt. Fodd bynnag, nid oedd Cyngor y Celfyddydau yn effro i'r risgiau i hyfywedd ariannol prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ac roedd ei ddull o fonitro'r

prosiect, drwy'r cyfnod datblygu ac ar ôl iddo agor, yn wan am nad oedd wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Tynnwyd sylw Cyngor y Celfyddydau at bryderon a oedd yn effeithio ar hyfywedd ariannol y prosiect, ond methodd â sicrhau bod yr ymgeisydd yn cymryd camau cyflym ac effeithiol i ddelio â'r pryderon hyn. Pan gaeodd Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ar ôl dim ond pedwar mis ar ddeg, dim ond £100,000 o asedau'r Ganolfan a oedd wedi'u hadennill er mwyn eu rhoi i sefydliadau celf eraill yng Nghymru.

4. Dywedodd llawer o'r tystion fod gweithdrefnau Cyngor Celfyddydau Cymru bellach wedi cael eu cryfhau er mwyn osgoi problemau o'r fath yn y dyfodol. Rydym yn falch o glywed bod gwersi wedi'u dysgu ond bydd angen inni fod yn fodlon bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu harfer bob amser ac yn y ffordd fwyaf effeithiol. Byddwn yn disgwyl i Archwilydd Cyffredinol Cymru brofi pa mor ddigonol yw'r gweithdrefnau diwygiedig y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn awr wedi'u cyflwyno.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Archwilio

The National Assembly for Wales

Audit Committee

Canolfan y Celfyddydau Gweledol

The Centre for Visual Arts

Cwestiynau (1-183)

Questions (1-183)

Dydd Iau 22 Tachwedd 2001

Thursday 22 November 2001

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Janet Davies (Cadeirydd), Eleanor Burnham, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Alison Halford, David Lloyd, Val Lloyd, Lynne Neagle.

Swyddogion yn bresennol: Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Gillian Body, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; David Powell, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystion: Peter Tyndall, Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo, Cyngor Celfyddydau Cymru; Frances Medley, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru; Rhys Parry, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Cyngor Celfyddydau Cymru.

Assembly Members present: Janet Davies (Chair), Eleanor Burnham, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Alison Halford, David Lloyd, Val Lloyd, Lynne Neagle.

Officials present: Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Gillian Body, National Audit Office Wales; David Powell, Compliance Officer, National Assembly for Wales.

Witnesses: Peter Tyndall, Chief Executive and Accounting Officer, Arts Council of Wales; Frances Medley, Deputy Chief Executive, Arts Council of Wales; Rhys Parry, Director of Finance and Resources, Arts Council of Wales.

Dechreuodd y sesiwn cymryd tystiolaeth am 2.08 p.m.

The evidence-taking session began at 2.08 p.m.

[1] **Janet Davies:** Good afternoon. I welcome the witnesses to this evidence session on the Centre for Visual Arts. Evidence can be taken in Welsh or English. Translation is available through the headphones. I apologise that my voice is in the process of giving up this afternoon. I hope that I manage to keep going. I would like to get into the evidence-taking session straight away, because we are always fairly short of time on these things.

[1] **Janet Davies:** Prynhawn da. Croesawaf y tystion i'r sesiwn tystiolaeth hwn ynghylch Canolfan y Celfyddydau Gweledol. Gellir cymryd tystiolaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Mae cyfieithiad ar gael drwy'r clustffonau. Ymddiheuraf fy mod yn colli fy llais y prynhawn yma. Gobeithiaf y llwyddaf i ddal ati. Hoffwn ddechrau'r sesiwn cymryd tystiolaeth yn ddiymdroi, oherwydd yr ydym bob amser yn eithaf prin o amser yn y pethau hyn.

0 I will ask the first question. I shall ask all these questions to you, Mr Tyndall. If you need advice from your

Gofynnaf fi'r cwestiwn cyntaf. Gofynnaf y cwestiynau hyn i gyd i chi, Mr Tyndall. Os bydd arnoch angen cyngor gan eich

colleagues, you are welcome to take it. Before considering the detailed aspects of this lottery award, I would like to ask you this: having recently taken up your post as accounting officer, why do you think the council came to contribute £3.2 million to a project that was closed after only 14 months?

Mr Tyndall: Thank you, Chair. Clearly, I have had an opportunity to scrutinise the records in some detail since taking up the post. I am conscious of the great public interest in the Centre for Visual Arts. There are elements upon which I can comment on the basis of the facts, others upon which I would be speculating, so I will confine myself in answering your question to what I can relate to facts.

It seems to me that, at the time that the project was first considered by the Arts Council of Wales, the report that it received was positive. The project went to the council highly recommended. That was on the basis of an independent assessor's report. Looking at the process that was used to produce that report, it is my judgment that that process does not comply with what we would regard as satisfactory scrutiny under the current arrangements. In essence, the council, following an assessor's report, a project officer's report based on that, and the scrutiny of the application by the capital committee, that is, on the basis of the evidence before it, made a decision to proceed with funding this scheme. It did that for a variety of reasons, which are well laid out in the reports that it received. The view was taken that Wales was deficient in gallery space on a large scale for the display of contemporary art and that the centre would contribute to the development of the city of Cardiff and the opportunities available there for cultural issues. There was even at that stage a reference to Culture Capital of Europe status.

cydweithwyr, mae croeso ichi ei gymryd. Cyn ystyried manylion y dyfarniad loteri hwn, hoffwn ofyn hyn ichi: a chithau wedi dod i'ch swydd yn ddiweddar fel swyddog cyfrifo, pam yn eich tyb chi y bu i'r cyngor gyfrannu £3.2 miliwn at brosiect a gaewyd wedi dim ond 14 mis?

Mr Tyndall: Diolch, Gadeirydd. Yn amlwg, yr wyf wedi cael cyfle i archwilio'r cofnodion mewn cryn fanylder ers ymgymryd â'r swydd. Yr wyf yn ymwybodol o'r diddordeb cyhoeddus mawr yng Nghanolfan y Celfyddydau Gweledol. Y mae elfennau y gallaf roi sylwadau arnynt ar sail y ffeithiau, ac eraill lle byddwn yn damcaniaethu, felly cyfyngaf fy hun wrth ateb eich cwestiwn i'r hyn y gallaf ei gysylltu â ffeithiau.

Mae'n ymddangos imi, ar yr adeg yr ystyriwyd y prosiect gyntaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru, y cafodd adroddiad cadarnhaol. Aeth y prosiect at y cyngor wedi'i argymhell yn gryf, a hynny ar sail adroddiad asesydd annibynnol. O edrych ar y broses a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwnnw, fy marn i yw nad yw'r broses honno'n cydymffurfio â'r hyn a ystyriem yn archwiliad boddhaol dan y trefniadau cyfredol. Yn y bôn, gwnaeth y cyngor, yn dilyn adroddiad asesydd, adroddiad swyddog prosiect yn seiliedig ar hwnnw, ac archwiliad o'r cais gan y pwyllgor cyfalaf, hynny yw, ar sail y dystiolaeth ger ei fron, benderfyniad i fwrw ymlaen i ariannu'r cynllun hwn. Gwnaeth hynny am amryfal resymau, a amlinellir yn glir yn yr adroddiadau a dderbyniodd. Cymerwyd y farn fod Cymru'n ddiffygiol o ran lle mewn orielau ar raddfa fawr i arddangos celf gyfoes ac y byddai'r ganolfan yn cyfrannu at ddatblygiad dinas Caerdydd a'r cyfleon a fyddai ar gael yno ar gyfer materion diwylliannol. Yr oedd hyd yn oed bryd hynny gyfeiriad at statws Prifddinas Diwylliant Ewrop.

So there was clearly enormous enthusiasm for the project, but the degree of scrutiny that was applied was not sufficient to ensure that the project, once delivered, could be sustainable and, ultimately, it proved not to be so. I think that, when we get to detailed questions, Chair, it will be evident that scrutiny was deficient in two principal elements. The first relates to the degree of detail and the degree of scrutiny of the capital elements of the scheme, where the application was funded on the basis of figures that would not be acceptable under current arrangements, because insufficient detail was attached to them. Insufficient work had been done in preparing them and, ultimately, the design of the scheme proved to be so deficient that the trust running it changed consultants, which led to an additional cost.

The second element that proved to be deficient was the business plan analysis of visitor figures, which, clearly, in the event, turned out to be optimistic, although, in making the decision at the time, the council had advice that suggested that the business plan figures for attendance might be pessimistic. In the context of the advice available to it, it seems to me that it took the decision on the basis of the advice it received, which was deficient.

[2] **Janet Davies:** There is a certain amount of suggestion that perhaps there had not been anything like this previously, on which to base a forecast. I want to raise a point—you may not be able to answer this, Mr Tyndall; and if you cannot, that is fine—about a previous project of which I am aware, namely the Rhondda Heritage Park. In the early 1980s it forecast 400,000 visitors, but in its first year it only managed to attract 38,000, which later rose to 60,000. So there was a lack of adequate forecasting there. In reading this report, I wondered why did the arts council not take a look at that project and a situation where lack of detail and care with the forecasting also proved to be a major problem.

Felly yn amlwg yr oedd brwdfrydedd enfawr tuag at y prosiect, ond nid oedd y radd o archwilio a wnaed yn ddigonol i sicrhau y gallai'r prosiect, unwaith y byddai wedi'i sefydlu, fod yn gynaliadwy, ac, ar ddiwedd y dydd, profodd nad ydoedd. Credaf, pan gyrhaeddwn y cwestiynau manwl, Gadeirydd, y bydd yn amlwg fod yr archwiliad yn ddiffygiol o ran dwy brif elfen. Mae a wnelo'r gyntaf â'r radd o fanylder a'r radd o archwilio ar elfennau cyfalaf y cynllun, lle'r oedd y cais wedi'i ariannu ar sail ffigurau na fyddai'n dderbyniol dan drefniadau cyfredol, oherwydd nad oedd digon o fanylder ynghlwm wrthynt. Nid oedd digon o waith wedi'i wneud wrth eu paratoi ac, yn y pen draw, profodd dyluniad y cynllun mor ddiffygiol nes i'r ymddiriedolaeth a'i rhedai newid ymgynghorwyr, a arweiniodd at gost ychwanegol.

Yr ail elfen a brofodd yn ddiffygiol oedd dadansoddiad y cynllun busnes o niferoedd ymwelwyr, a oedd yn amlwg, fel y digwyddodd pethau, yn optimistaidd, er, wrth wneud y penderfyniad ar y pryd, fe gynghorwyd y cyngor y gallai ffigurau'r cynllun busnes ar gyfer niferoedd ymwelwyr fod yn besimistaidd. Yng nghyd-destun y cyngor a oedd ar gael iddo, mae'n ymddangos i mi iddo wneud y penderfyniad ar sail y cyngor a gafodd, a oedd yn ddiffygiol.

[2] **Janet Davies:** Y mae rhywfaint o awgrym efallai nad oedd dim byd fel hyn wedi bod o'r blaen, er mwyn seilio rhagolwg arno. Hoffwn godi pwynt—efallai na fyddwch yn gallu ateb hyn, Mr Tyndall; ac os na allwch, popeth yn iawn—ynghylch prosiect blaenorol y gwn i amdano, sef Parc Treftadaeth y Rhondda. Yn yr 1980au cynnar rhagwelwyd 400,000 o ymwelwyr, ond yn ei flwyddyn gyntaf dim ond 38,000 y llwyddodd i'w denu, a gododd yn ddiweddarach i 60,000. Felly yr oedd diffyg rhagolygon cywir yn y fan honno. Wrth ddarllen yr adroddiad hwn, meddyliais tybed pam nad edrychodd cyngor y celfyddydau ar y prosiect hwnnw a sefyllfa lle'r oedd diffyg manylder a gofal gyda'r rhagolwg wedi profi'n broblem fawr hefyd.

strands of each application. We offer grant only when the project has been developed to the Royal Institute of British Architects stage D, which gives us confidence that the figures for capital have been developed to a sufficient stage to provide a robust basis for the award of grant. There is an intensive scrutiny of all business plans to ensure that the assumptions made within them are correct and a sensitivity analysis is applied. We have improved monitoring enforcement, as I suggested earlier. We have the legal agreement in place as a consequence of grants being awarded, which requires the recipients to make available the information that we need in order to properly monitor projects and ensure that public investment in them is safe. I think that that is it, Chair.

ddatblygu hyd at gam D Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain y byddwn yn cynnig grant, gan y bydd gennym hyder wedyn fod y ffigurau ar gyfer cyfalaf wedi'u datblygu yn ddigon pell i ddarparu sail gadarn ar gyfer dyfarnu grant. Ceir archwiliad trylwyr ar bob cynllun busnes i sicrhau fod y rhagdybiaethau a wneir ynddynt yn gywir ac y ceir dadansoddiad sensitifrwydd. Yr ydym wedi gwella mesurau sicrhau monitro, fel yr awgrymais yn gynharach. Mae'r cytundeb cyfreithiol yn ei le gennym yn sgîl dyfarnu grantiau, sy'n gofyn bod y derbynwyr yn darparu'r wybodaeth y mae arnom ei hangen er mwyn monitro prosiectau'n iawn a sicrhau fod buddsoddiad y cyhoedd ynddynt yn ddiogel. Dyna ni, yr wyf yn meddwl, Gadeirydd.

[181] **Janet Davies:** Thank you, Mr Tyndall—

[181] **Janet Davies:** Diolch, Mr Tyndall—

[182] **Alun Cairns:** Three issues arise from all this.

[182] **Alun Cairns:** Mae tri mater yn codi o hyn i gyd.

[183] **Janet Davies:** I will come to that in a moment, Alun. This is the end of the questions and the hearing. I thank all the witnesses for your efforts, in very difficult circumstances, to give us full and helpful answers. We appreciate your efforts. I know that the Committee wants to discuss a possible second hearing with different witnesses. I know that Alun Cairns wishes to raise some general issues which would apply to Assembly sponsored bodies across the board. We will then go on to the minutes. The witnesses are welcome to stay for the rest of the meeting, but the hearing is at an end and you need not feel that you have to stay.

[183] **Janet Davies:** Dof at hynny mewn munud, Alun. Dyma ddiwedd y cwestiynau a'r gwrandawriad. Diolch i'r tystion i gyd am eich ymdrechion, mewn amgylchiadau anodd iawn, i roi atebion llawn a defnyddiol inni. Yr ydym yn gwerthfawrogi'ch ymdrechion. Gwn fod ar y Pwyllgor eisiau trafod ail wrandawriad posibl gyda thystion gwahanol. Gwn fod Alun Cairns yn dymuno codi rhai materion cyffredinol a fyddai'n berthnasol i gyrff a noddir gan y Cynulliad ar draws y bwrdd. Awn ymlaen wedyn at y cofnodion. Mae croeso i'r tystion aros am weddill y cyfarfod, ond mae'r gwrandawriad ar ben ac nid oes angen ichi deimlo bod rhaid ichi aros.

Daeth y sesiwn gymryd tystiolaeth i ben am 4.25 p.m.

The evidence-taking session ended at 4.25 p.m.

- (1) Cynhwysir copi o'r siartiau llif yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar y mater hwn.

- (1) A copy of the flowcharts will be included in the Audit Committee's report on this matter.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Archwilio

The National Assembly for Wales

Audit Committee

Canolfan y Celfyddydau Gweledol

The Centre for Visual Arts

Cwestiynau 184-368

Questions 184-368

Dydd Iau 13 Rhagfyr 2001

Thursday 13 December 2001

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Janet Davies (Cadeirydd), Lorraine Barrett, Eleanor Burnham, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Alison Halford, David Lloyd, Val Lloyd.

Swyddogion yn bresennol: Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Lew Hughes, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; Angela Parkes, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; David Powell, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystion: Emyr Jenkins, Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru 1993-98; Joanna Weston, Cyfarwyddwr Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-98 a Phrif Weithredwr 1998-2000; Syr Richard Lloyd Jones, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru 1994-99; Robert Edge, Cyfarwyddwr Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru 1998-2001; Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Assembly Members present: Janet Davies (Chair), Lorraine Barrett, Eleanor Burnham, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Alison Halford, David Lloyd, Val Lloyd.

Officials present: Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Lew Hughes, National Audit Office Wales; Angela Parkes, Office of the Counsel General, National Assembly for Wales; David Powell, Compliance Officer, National Assembly for Wales.

Witnesses: Emyr Jenkins, Chief Executive, Arts Council of Wales 1993-98; Joanna Weston, Lottery Director, Arts Council of Wales 1994-98 and Chief Executive 1998-2000; Sir Richard Lloyd Jones, Chairman, Arts Council of Wales 1994-99; Robert Edge, Lottery Director, Arts Council of Wales 1998-2001; Jon Shortridge, Permanent Secretary, National Assembly for Wales.

Dechreuodd y sesiwn cymryd tystiolaeth am 2 p.m.

The evidence-taking session began at 2 p.m.

[184] **Janet Davies:** Good afternoon. I welcome everybody here today—witnesses and the others who are present. I will ask the witnesses to introduce themselves formally in a minute. First, I will go through a few housekeeping matters. There are apologies and substitutions. Eleanor Burnham is substituting for Kirsty Williams, Dai Lloyd is

[184] **Janet Davies:** Prynawn da. Croesawaf bawb yma heddiw—yn dystion a'r lleill sydd yn bresennol. Gofynnaf i'r tystion gyflwyno'u hunain yn ffurfiol mewn munud. Yn gyntaf, af drwy ychydig o faterion cadw ty. Mae ymddiheuriadau ac eilyddion. Mae Eleanor Burnham yma yn lle Kirsty Williams, mae Dai Lloyd yma yn lle Dafydd

substituting for Dafydd Wigley, and Lorraine Barrett is substituting for Janice Gregory. Lorraine will have to leave for part of the meeting. Contributions may be made in either Welsh or English, and translation is available. Coffee will be available for members and witnesses at about 3 p.m.

I will now turn to the first item on the agenda. This is the second evidence-taking session in connection with the National Audit Office report on behalf of the Auditor General for Wales, 'The Arts Council of Wales: Centre for Visual Arts', published on 15 November 2001. Members will recall that, at the last meeting, it was decided to invite those responsible at the time for the decisions outlined in the Auditor General's report to this evidence session. I would like to emphasise that all the witnesses are here by invitation, and that they are not presently in post with the arts council. However, the Committee felt that it was important to enable those who made the decisions outlined in the report to have an opportunity to put forward their understanding of events. So this evidence session is a special case, in that we will be hearing from former accounting officers and a former Chair of the arts council. Therefore, I would like to welcome the witnesses, and express the Committee's gratitude for accepting our invitation to attend this evidence session. Would you please introduce yourselves for the formal record? I would like to point out that there will be a verbatim record of this evidence-taking session.

Sir Richard Lloyd Jones: Thank you very much, Chairman. Before I introduce myself, I first must apologise. I have a stinking cold and a cough, so if you cannot hear me, please would you let me know and I will try to speak up. I am Richard Lloyd Jones. I was Permanent Secretary at the Welsh Office from 1985 to 1993, and chairman of the Arts Council of Wales from 1994 to March 1999.

Wigley, ac mae Lorraine Barrett yma yn lle Janice Gregory. Bydd yn rhaid i Lorraine ymadael am ran o'r cyfarfod. Gellir gwneud cyfraniadau naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae gwasanaeth cyfieithu ar gael. Bydd coffi ar gael i'r aelodau a'r tystion tua 3 p.m.

Trof yn awr at yr eitem gyntaf ar yr agenda. Dyma'r ail sesiwn cymryd tystiolaeth yn gysylltiedig ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, 'Cyngor Celfyddydau Cymru: Canolfan y Celfyddydau Gweledol', a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd 2001. Fe gofia'r aelodau y penderfynwyd, yn y cyfarfod diwethaf, wahodd y rheini oedd yn gyfrifol ar y pryd am y penderfyniadau a amlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i'r sesiwn tystiolaeth hwn. Hoffwn bwysleisio mai trwy wahoddiad y mae'r holl dystion yma, ac nad ydynt ar hyn o bryd mewn swyddi gyda chynghor y celfyddydau. Fodd bynnag, teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig galluogi'r rheini a wnaeth y penderfyniadau a amlinellwyd yn yr adroddiad i gyflwyno'u dealltwriaeth hwy o bethau. Felly mae'r sesiwn tystiolaeth hwn yn achos arbennig, gan y byddwn yn clywed oddi wrth gyn swyddogion cyfrifo a chyn Gadeirydd cynghor y celfyddydau. Felly, hoffwn groesawu'r tystion, a mynegi diolch y Pwyllgor am dderbyn ein gwahoddiad i fynychu'r sesiwn tystiolaeth hwn. A fydech gystal â chyflwyno'ch hunain er mwyn y cofnod ffurfiol? Hoffwn nodi y bydd cofnod gair-am-air o'r sesiwn cymryd tystiolaeth hwn.

Syr Richard Lloyd Jones: Diolch yn fawr, Gadeirydd. Cyn imi gyflwyno fy hun, rhaid imi yn gyntaf ymddiheuro. Mae annwyd a pheswch ofnadwy arnaf, felly os na allwch fy nghlywed, rhowch wybod imi, ac mi geisiaf godi fy llais. Richard Lloyd Jones wyf fi. Yr oeddwn yn Ysgrifennydd Parhaol yn y Swyddfa Gymreig o 1985 hyd 1993, ac yn gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru o 1994 hyd Fawrth 1999.

Mr Jenkins: Madam Cadeirydd, diolch am y gwahoddiad. Fy enw i yw Emyr Jenkins. Yr oeddwn yn brif weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru o 1993 tan 1998, pan ymddeolais. A gaf wneud un nodyn bach? Fe hoffwn roi tystiolaeth yn Gymraeg yn y Pwyllgor hwn, ond gan fod y dogfennau y byddwn yn dyfynnu ohonynt yn Saesneg, ac y bydd llawer o'r drafodaeth ar y dogfennau hynny, yr wyf wedi penderfynu rhoi tystiolaeth yn Saesneg. Fodd bynnag, byddaf yn gwbl barod i ateb unrhyw gwestiwn a ofynnir yn Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ms Weston: I am Joanna Weston. I was lottery director of the arts council from 1994 until 1998, and chief executive of the arts council from 1998 to 2000.

Mr Edge: I am Robert Edge. I was the lottery director at the arts council from May 1998 until February 2001. I would like to correct one thing in the chair's opening statement—I have never been an accounting officer.

Mr Shortridge: I am Jon Shortridge, Permanent Secretary to the Assembly.

[185] **Janet Davies:** Thank you very much. I think that we need to crack on with this as quickly as possible. I would like to go straight into the first question, which is to all the witnesses, except Mr Shortridge. I would like, before we get into the detail of the Centre for Visual Arts, to ask you to start by telling us about the post that each of you held with the Arts Council of Wales. I know that you have mentioned that briefly, but perhaps you could enlarge slightly on that and on the role in respect of lottery funding by the arts council and, in particular, the Centre for Visual Arts.

Mr Jenkins: Madam Chair, thank you for the invitation. My name is Emyr Jenkins. I was chief executive of the Arts Council of Wales from 1993 to 1998, when I retired. May I make one brief comment? I would like to give evidence in Welsh in this Committee, but since the documents from which we will be quoting are in English, and since much of the discussion will be on those documents, I have decided to give evidence in English. However, I will be more than willing to answer any question asked in Welsh through the medium of Welsh.

Ms Weston: Joanna Weston wyf fi. Fi oedd cyfarwyddwr loteri cyngor y celfyddydau o 1994 hyd 1998, a phrif weithredwr cyngor y celfyddydau o 1998 hyd 2000.

Mr Edge: Robert Edge wyf fi. Fi oedd cyfarwyddwr y loteri yng nghyngor y celfyddydau o Fai 1998 hyd Chwefror 2001. Hoffwn gywiro un peth yn natganiad agoriadol y cadeirydd—ni fûm erioed yn swyddog cyfrifo.

Mr Shortridge: Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, wyf fi.

[185] **Janet Davies:** Diolch yn fawr. Yr wyf yn meddwl bod angen inni fwrw ymlaen â hyn cyn gynted ag y bo modd. Hoffwn fynd yn syth i mewn i'r cwestiwn cyntaf, a gyfeirir at y tystion i gyd, ac eithrio Mr Shortridge. Hoffwn, cyn inni fynd i mewn i fanylion Canolfan y Celfyddydau Gweledol, ofyn ichi gychwyn drwy ddweud wrthym am y swydd yr oedd pob un ohonoch yn ei dal gyda Chyngor Celfyddydau Cymru. Gwn eich bod wedi cyfeirio at hynny'n fyr, ond efallai y gallech ymhelaethu ychydig ar hynny ac ar y rôl yng nghyswllt grantiau loteri gan gyngor y celfyddydau ac, yn enwedig, yng nghyswllt

Sir Richard Lloyd Jones: As chairman of the arts council, I was concerned particularly with, not the management, but taking the responsibility for chairing the council's meetings. The council, as you know, is a charter body. It had 18 members at the time. I saw my role as very much one of leading the council to taking decisions. Underneath, there was a complex structure of committees. That included art form development committees and other committees. The main one that you need to know about is the lottery board, which scrutinised all lottery applications and, unless they were pretty small in financial value, they all came to the arts council for approval. I think that that was my main role. I could talk for a long time about the responsibilities of a chairman of a body like that but, essentially, it was a voluntary body and a charter body too.

Mr Jenkins: I had a dual role in a way, Madam Chairman, without wanting to confuse the Committee. I was appointed in 1993, when it was the Welsh Arts Council, not the Arts Council of Wales. The Welsh Arts Council was a sub-committee of the Arts Council of Great Britain. Therefore, I was employed for the first year of my employment with the arts council by the Arts Council of Great Britain as the director of the Welsh Arts Council. Then, of course, there was cultural devolution in 1994, where each national arts council devolved from the Arts Council of Great Britain and I became chief executive of the Arts Council of Wales, working directly to the Welsh Office rather than working to the then Department of National Heritage. It is a little complicated, but there was that dual role. In that role, then, from 1994 onwards, when Sir Richard became chairman, I was chief executive up until the end of March 1998. So, I will have to confine my remarks, Madam Chairman, to the period of the initial decision to go ahead with the CVA up until just before the third

Syr Richard Lloyd Jones: Fel cadeirydd cyngor y celfyddydau, yr oeddwn i'n ymwneud yn arbennig nid â rheoli, ond â chymryd y cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd y cyngor. Mae'r cyngor, fel y gwyddoch, yn gorff siarter. Yr oedd ganddo 18 o aelodau ar y pryd. Gwelwn mai fy rôl i yn anad dim oedd arwain y cyngor i wneud penderfyniadau. Oddi tanodd, yr oedd adeiledd cymhleth o bwyllgorau. Yr oedd hynny'n cynnwys pwyllgorau datblygu ffurfiau celfyddydol a phwyllgorau eraill. Y prif un y mae angen i chi wybod amdano yw bwrdd y loteri, a archwiliai bob cais loteri, ac oni bai eu bod yn weddol fychan o ran gwerth ariannol, deuai pob un at gyngor y celfyddydau i'w gymeradwyo. Yr wyf yn meddwl mai dyna oedd fy mhrif rôl i. Gallwn siarad yn faith am gyfrifoldebau cadeirydd corff fel hwnnw ond, yn ei hanfod, yr oedd yn gorff gwirfoddol ac yn gorff siarter hefyd.

Mr Jenkins: Yr oedd gennyf fi rôl ddeuol mewn ffordd, Madam Cadeirydd, heb fod eisiau drysu'r Pwyllgor. Fe'm penodwyd yn 1993, pan elwid y Cyngor, yn Saesneg, yn *Welsh Arts Council*, ac nid yn *Arts Council of Wales*. Yr oedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn is-bwyllgor i Gyngor Celfyddydau Prydain Fawr. Felly, fe'm cyflogwyd i am flwyddyn gyntaf fy nghyflogaeth gyda chyngor

application.

y celfyddydau gan Gyngor
Celfyddydau Prydain Fawr
fel cyfarwyddwr Cyngor
Celfyddydau Cymru.
Wedyn, wrth gwrs, cafwyd
datganoli diwylliannol yn
1994, pryd y datganolwyd
pob cyngor celfyddydau
cenedlaethol oddi wrth
Gyngor Celfyddydau
Prydain Fawr ac y deuthum
i'n brif weithredwr y
Cyngor Celfyddydau
Cymru newydd, yn
gweithio'n uniongyrchol i'r
Swyddfa Gymreig yn
hytrach nag i'r Adran
Dreftadaeth Genedlaethol
fel yr oedd. Y mae ychydig
yn gymhleth, ond yr oedd y
rôl ddeuol honno'n bodoli.
Yn y rôl honno, felly, o
1994 ymlaen, pan ddaeth
Syr Richard i'r gadair, yr
oeddwn i'n brif weithredwr
hyd ddiwedd Mawrth 1998.
Felly, bydd yn rhaid imi
gyfyngu fy sylwadau,
Madam Cadeirydd, i gyfnod
y penderfyniad gwreiddiol i
fynd ymlaen â Chanolfan y
Celfyddydau Gweledol hyd
at ychydig cyn y trydydd

cais.

Ms Weston: I was employed by the arts council in September 1994. That was before the lottery had started; it started in November 1994. My first task was to set up the lottery unit, as it was then, from nothing, from a blank sheet of paper. The framework that I worked within was made up of Government directions, which were issued by the Welsh Office but originated from the Department of National Heritage; the finance directions, which were quite detailed instructions on financial systems; and some very helpful and detailed guidelines, which the National Audit Office issued for all of the 11 lottery distributors, on how they should develop their systems. Those guidelines ranged from staff policies to disaster recovery procedures to having an application system with application forms that answered the questions that needed to be answered and so forth. We needed to get what was known then as a statement of fitness from the Department of National Heritage, and that had to be signed off by the NAO before we could do that, confirming that we were working within our regulatory framework and so on. When we did, we were the first arts council of the four in the UK to be given the statement of fitness and we started distribution in March 1995. So, the grant to the CVA, as I think members know, was actually in the first round of grants that were made. I do not know if you want me to go on into my role as chief executive; I suspect that that would be a waste of time.

[186] **Janet Davies:** I think that is fine, thank you very much. Mr Edge?

Mr Edge: Jo Weston has already outlined the original role of the lottery director. I became the lottery director in May 1998, as I have already said, which was shortly before the National Lottery Act 1998 got Royal

Ms Weston: Fe'm cyflogwyd i gan gyngor y celfyddydau ym Medi 1994. Yr oedd hynny cyn dechrau'r loteri; dechreuodd honno ym mis Tachwedd 1994. Fy ngorchwyl cyntaf oedd sefydlu'r uned loteri, fel yr oedd bryd hynny, o ddim byd, oddi ar ddalen wag o bapur. Yr oedd y fframwaith y gweithiwn ynddo wedi'i lunio o gyfarwyddiadau'r Llywodraeth, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ond a darddai o'r Adran Dreftadaeth Genedlaethol; y cyfarwyddiadau cyllid, a oedd yn gyfarwyddiadau eithaf manwl ar systemau ariannol; a rhai canllawiau buddiol a manwl iawn, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i bob un o'r 11 dosbarthwr loteri, ar sut y dylent ddatblygu'u systemau. Amrywiai'r canllawiau hynny o bolisiâu staff i weithdrefnau adfer argyfwng, i gael system geisiadau â ffurflenni cais a atebai'r cwestiynau yr oedd angen eu hateb, ac ati. Yr oedd angen inni gael yr hyn a elwid bryd hynny yn ddatganiad addasrwydd oddi wrth yr Adran Dreftadaeth Genedlaethol, ac yr oedd yn rhaid i hwnnw gael ei lofnodi gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cyn y gallem wneud hynny, i gadarnhau ein bod yn gweithio o fewn ein fframwaith rheoleiddiol ac yn y blaen. Pan wnaethom hynny, ni oedd y cyntaf o'r pedwar cyngor celfyddydau yn y DU i gael y datganiad addasrwydd a dechreuasom ddsbarthu ym Mawrth 1995. Felly yr oedd y grant i'r ganolfan, fel y tybiaf y gwyr yr aelodau, mewn gwirionedd yn y cylch cyntaf o grantiau a wnaethpwyd. Ni wn a ydych am imi fynd ymlaen i sôn am fy rôl fel prif weithredwr; yr wyf yn amau mai gwastraff amser fyddai hynny.

[186] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl fod hynny'n iawn, diolch yn fawr. Mr Edge?

Mr Edge: Mae Jo Weston eisoes wedi amlinellu rôl wreiddiol y cyfarwyddwr loteri. Deuthum i'n gyfarwyddwr y loteri ym Mai 1998, fel y dywedais eisoes, sef ychydig cyn i Ddeddf Loteri Genedlaethol 1998 gael

Assent. In that role, I had to implement the changes that were in the 1998 Act that were not in the original 1993 Act. We were told to be more strategic, to have a strategic plan, and there were other changes in the policy directions, and the financial directions had also been rewritten. My role, essentially, was to put those changes in place, to continue with the good work that had been maintained to keep the systems in order, to make sure that all our systems and decisions were watertight as per the annual National Audit Office check. I also had to keep our staff up to speed because, at that stage, before I left, we had made certainly over 2,000 lottery grants and had committed over £80 million.

Cydsyniad Brenhinol. Yn y rôl honno, yr oedd yn rhaid imi weithredu'r newidiadau a oedd yn Neddf 1998 ond nad oedd yn Neddf wreiddiol 1993. Dywedwyd wrthym am fod yn fwy strategol, am gael cynllun strategol, ac yr oedd newidiadau eraill yn y cyfarwyddiadau polisi, ac yr oedd y cyfarwyddiadau ariannol wedi'u hailysgrifennu hefyd. Fy rôl i, yn ei hanfod, oedd gwneud y newidiadau hynny, parhau â'r gwaith da a wnaethpwyd i gadw'r systemau mewn trefn, a gwneud yn siwr fod ein holl systemau a phenderfyniadau yn dal dŵr yn unol ag archwiliad blynyddol y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Yr oedd yn rhaid imi sicrhau hefyd fod ein staff o gwmpas eu pethau oherwydd, bryd hynny, cyn imi ymadael, yr oeddem yn ddi-os wedi rhoi dros 2,000 o grantiau loteri, ac wedi ymrwymo dros £80 miliwn.

[187] **Janet Davies:** Thank you. Mr Shortridge, would you like to enlarge a little on your role, as the Assembly's Permanent Secretary, with Assembly sponsored public bodies such as the arts council?

[187] **Janet Davies:** Diolch. Mr Shortridge, a hoffech chi ymhelaethu ychydig ar eich rôl chi, fel Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad, gyda chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, fel cyngor y celfyddydau?

Mr Shortridge: As the departmental accounting officer, I have to work closely with the accounting officers of all the Assembly sponsored public bodies. There is a letter from me, as the formal accounting officer, which sets out the nature of the relationship, which is defined in more detail in the appointment letter that goes from me to the accounting officers concerned. Basically, my role is to satisfy myself that they have all the necessary systems in place to secure regularity, propriety and value for money for the public funds for which they are responsible.

Mr Shortridge: Fel y swyddog cyfrifo adrannol, mae'n rhaid i mi weithio'n agos gyda swyddogion cyfrifo pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Mae llythyr oddi wrthyf fi, fel y swyddog cyfrifo ffurfiol, sydd yn amlinellu natur y berthynas, a ddiffinnir yn fanylach yn y llythyr penodi a anfonir gennyf fi at y swyddogion cyfrifo perthnasol. Yn y bôn, fy rôl i yw bodloni fy hun fod gan bob un ohonynt y systemau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian gyda'r arian cyhoeddus y maent yn gyfrifol amdano.

The Committee also needs to know that, from 25 September 2000 to 30 September 2001, I acted as accounting officer for the Arts Council of Wales because, at that time, it did not have an accounting officer of its own and I stepped in to fill that role.

Mae angen i'r Pwyllgor wybod hefyd y gweithredais fel swyddog cyfrifo i Gyngor Celfyddydau Cymru o 25 Medi 2000 hyd 30 Medi 2001 oherwydd nad oedd ganddo, bryd hynny, ei swyddog cyfrifo ei hun, a chamais innau i mewn i lanw'r rôl honno.

[188] **Janet Davies:** Thank you. I think we needed to get all that on the record. I would like to address a question to Mr Jenkins and to Miss Weston. If we turn to the actual project of the Centre for Visual Arts, the first lottery award of £2 million was made in early 1995. Could you give us any information on how the project came to be assessed as highly recommended for lottery funding?

Mr Jenkins: Yes. May I ask Jo to come in and tell you? When you say it was assessed as highly recommended, that was the result of an assessor's report. I think that it might be interesting for the Committee to know how that assessor was appointed, because there was some discussion of that in the last Audit Committee meeting. Would you be willing for me to transfer that question initially across to Miss Weston?

[189] **Janet Davies:** Yes.

Ms Weston: Thank you, Chair. I think that it is important to understand the process. I was saying that my first task was to set up the systems of the lottery division, and one of those setting up of systems was to appoint a pool of external assessors. That is the same as what all the other 10 lottery distributors did at that time. I arranged for an advertisement to be placed in the manner of a normal advertisement for a job in the usual publications that the arts council used. It was asked that responses be made straight to Coopers and Lybrand, which I had commissioned to run the entire process on behalf of the arts council. Having consulted with Emyr, as chief executive, and the finance director of the arts council, we thought that, clearly, it was not something that we should do in-house. Draft guidance notes for assessors on what the process would be

[188] **Janet Davies:** Diolch. Yr oedd angen inni gael hynny i gyd i lawr ar gof a chadw, yn fy marn i. Hoffwn ofyn cwestiwn i Mr Jenkins a Miss Weston. Os trown at brosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol ei hun, gwnaethpwyd y dyfarniad loteri cyntaf o £2 filiwn yn gynnar yn 1995. A allech roi unrhyw wybodaeth inni ar sut y darfu i'r prosiect gael ei asesu fel un a gâi ei argymell yn gryf ar gyfer cael arian loteri?

Mr Jenkins: Gallwn. A gaf fi ofyn i Jo ddod i mewn a dweud wrthyich? Pan ddywedwch iddo gael ei asesu fel un a gâi ei argymell yn gryf, canlyniad adroddiad aseswr oedd hynny. Yr wyf yn meddwl efallai y byddai o ddiddordeb i'r Pwyllgor wybod sut y penodwyd yr aseswr hwnnw, oherwydd yr oedd rhywfaint o drafod ar hynny yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. A fydech yn fodlon imi drosglwyddo'r cwestiwn hwnnw yn y lle cyntaf drosodd at Miss Weston?

[189] **Janet Davies:** Byddwn.

Ms Weston: Diolch, Gadeirydd. Yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig deall y broses. Dywedais mai fy ngorchwyl cyntaf oedd sefydlu systemau adran y loteri, ac un o'r camau hynny i sefydlu systemau oedd penodi cronfa o aseswyr allanol. Mae hynny yr un peth ag a wnaeth pob un o'r 10 dosbarthwr loteri arall bryd hynny. Trefnais i osod hysbyseb ar ffurf hysbyseb arferol am swydd yn y cyhoeddiadau arferol a ddefnyddid gan gyngor y celfyddydau. Gofynnai am ymateb yn uniongyrchol i Coopers and Lybrand, a gomisiynwyd gennyf fi i redeg yr holl broses ar ran cyngor y celfyddydau. Wedi ymgynghori ag Emyr, fel prif weithredwr, a chyfarwyddwr cyllid cyngor y celfyddydau, yr oeddem o'r farn glir nad oedd hyn yn rhywbeth y dylem ei wneud yn fewnol. Anfonwyd at y cwmni archwilwyr ganllawiau drafft i aseswyr yn amlinellu beth fyddai'r

were sent to the firm of auditors. Applications went to them. They interviewed in most cases. I think that they did an initial sift and then interviewed all the other applicants. They then presented us with their list of approved assessors, grouped into different disciplines: architects, quantity surveyors, arts consultants and that sort of thing. We held a public meeting (1), following that, for all the assessors who had been appointed so that we could share information, so that I could present the issues, as I saw them, and so that other lottery officers could explain the background to the issues, and we took it from there.

When the application for the CVA came in, we had already been through that process. The then senior capital projects officer, who had the task of appointing an assessor, appointed McCann Matthews Millman to assess this project. I have no doubt that she would have consulted me at the time because we were a small staff; we were just at the starting point. I am sure that she would have done, although I do not particularly remember it. I was aware that McCann Matthews Millman was one of the highest regarded professional arts marketing consultancies in the UK. That was just general background knowledge that I had, having worked in theatre for about 30 years.

I am not aware of what other arts marketing specialists we had on the books at the time. I do not think that there is anything that I can add to the background, unless you want to ask me any questions.

Mr Jenkins: May I follow on from that, Madam Chairman, and say that the National Audit Office report suggests that we did not go against the advice of the assessor. I think that you have heard how that assessor was appointed, that it was an external process and that we had a list of assessors recommended

broses. Aeth ceisiadau atynt hwy. Cynaliasant gyfweliadau yn y rhan fwyaf o achosion. Yr wyf yn meddwl iddynt chwynnu i ddechrau ac wedyn cyfweld pob ymgeisydd arall. Wedyn cyflwynasant inni eu rhestr o aseswyr cymeradwy, wedi'u grwpio'n wahanol ddisgyblaethau: penseiri, maintfesurwyr, ymgynghorwyr celf a'r math yna o beth. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus (1) wedyn i'r holl aseswyr a benodwyd er mwyn inni allu rhannu gwybodaeth, er mwyn i mi allu cyflwyno'r prif faterion, fel y'u gwelwn, ac er mwyn i swyddogion loteri eraill allu egluro'r cefndir i'r materion, ac aethom ymlaen o'r fan honno.

Pan ddaeth y cais i mewn ar gyfer y ganolfan, yr oeddem eisoes wedi bod drwy'r broses honno. Penodwyd McCann Matthews Millman i asesu'r prosiect hwn gan yr uwch swyddog prosiectau cyfalaf ar y pryd, a oedd yn gyfrifol am benodi asesydd. Nid wyf yn amau y buasai hi wedi ymgynghori â mi ar y pryd oherwydd yr oeddem yn staff bach; dim ond dechrau yr oeddem. Yr wyf yn siwr y buasai hi wedi gwneud, er nad oes gennyf gof arbennig o'r peth. Yr oeddwn yn ymwybodol fod McCann Matthews Millman yn un o'r cwmnïau ymgynghori proffesiynol uchaf ei barch yn y DU ym maes marchnata'r celfyddydau. Dim ond gwybodaeth gefndir gyffredinol a oedd gennyf oedd hynny, a minnau wedi gweithio ym myd y theatr am ryw 30 mlynedd.

Ni wn pa arbenigwyr marchnata celfyddydau eraill a oedd gennym ar y llyfrau ar y pryd. Nid wyf yn meddwl fod dim y gallaf ei ychwanegu at y cefndir, oni bai yr hoffech ofyn unrhyw gwestiynau imi.

Mr Jenkins: A gaf i ddilyn hynny, Madam Cadeirydd, drwy ddweud fod adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn awgrymu nad aethom yn groes i gyngor yr asesydd. Yr wyf yn meddwl eich bod wedi clywed sut y penodwyd yr asesydd hwnnw, mai proses allanol ydoedd ac yr argymhellwyd rhestr o

to us. That assessor then took both the application and had interviews with COLT, the Cardiff Old Library Trust, and submitted a report to us, and it is that report that underlined the value of this project—a project, incidentally, that had been discussed both with Cardiff City Council and with other interested parties for almost 10 years.

[190] **Janet Davies:** Ten years is certainly a long time.

Mr Jenkins: I am giving that as a measure of the length of time. I cannot give exact dates on this, but certainly from the 1980s this had been a project that had been seen as highly desirable, both from the city council's point of view, and from the Arts Council of Wales's point of view. It was a big hole in the arts provision in Wales, not just in the capital city, but in Wales, and this seemed to us to be the culmination of our attempt to fill that hole.

[191] **Janet Davies:** Right. Again, Mr Jenkins and Miss Weston, you had been having these long years of discussions, and we were then facing local government reorganisation, which was taking effect in April 1996. Clearly, there was time pressure being imposed at that point. Could you explain how the arts council managed to deal with that pressure, and whether it did have any impact upon the adequacy of the assessment of the application? Did you feel that you had to rush things a bit then?

Mr Jenkins: The whole lottery process itself was new. There was no experience in any lottery distributor. It is important, I think, for the Committee to realise that point. Every lottery distributor was inexperienced at that stage. Jo has said that this application came in the first round. It was a big application. There was time pressure on the arts council, and the time pressure was also on the Old Library

aseswyr inni. Wedyn cymerodd yr asesydd hwnnw y cais, a chynnal cyfweiliadau gyda COLT, sef Ymddiriedolaeth Hen Lyfrgell Caerdydd, gan gyflwyno adroddiad wedyn i ni, a'r adroddiad hwnnw a danlinellodd werth y prosiect hwn—prosiect, gyda llaw, a oedd wedi'i drafod gyda Chyngor Dinas Caerdydd a gyda chyrrff eraill oedd â diddordeb ers bron 10 mlynedd.

[190] **Janet Davies:** Mae 10 mlynedd yn sicr yn amser maith.

Mr Jenkins: Yr wyf yn rhoi hynny fel mesur o hyd yr amser. Ni allaf roi union ddyddiadau ar hyn, ond yn sicr oddi ar yr 1980au yr oedd hwn yn brosiect a oedd wedi'i weld yn un hynod o ddeniadol, o safbwynt cyngor y ddinas a Chyngor Celfyddydau Cymru ill dau. Yr oedd bwllch mawr yn narpariaeth y celfyddydau yng Nghymru, nid yn unig yn y brifddinas, ond yng Nghymru, ac ymddangosai i ni mai dyma ben draw ein hymgais i lanw'r bwllch hwnnw.

[191] **Janet Davies:** Iawn. Eto, Mr Jenkins a Miss Weston, yr oeddech wedi cael y blynyddoedd maith hyn o drafod, ac yr oeddem ar y pryd yn wynebu ad-drefnu llywodraeth leol, a oedd yn dod i rym yn Ebrill 1996. Yn amlwg, yr oedd pwysau amser yn drwm ar y pryd. A allech chi egluro sut y llwyddodd cyngor y celfyddydau i ddelio â'r pwysau hynny, ac a gafodd y pwysau unrhyw effaith ar ddiagonolrwydd asesiad y cais? A deimlech fod yn rhaid ichi ruthro pethau braidd bryd hynny?

Mr Jenkins: Yr oedd holl broses y loteri ei hun yn newydd. Nid oedd dim profiad gan unrhyw ddsbarthwr loteri. Mae'n bwysig, mi gredaf, i'r Pwyllgor sylweddoli hynny. Yr oedd pob dosbarthwr loteri'n ddibrofiad bryd hynny. Dywedodd Jo i'r cais hwn ddod yn y cylch cyntaf. Yr oedd yn gais mawr. Yr oedd pwysau amser ar gyngor y celfyddydau, ac yr oedd y pwysau amser ar ymddiriedolaeth yr

trust. I would dispute very strongly that the process was rushed or skimmed in any way; we did go through that process with a fine toothed comb. We went through all the procedures that were set out at the time, and I think that that is another important point. Procedures have changed later in the light of experience, yes, but at the time we went through all the procedures that were required of us.

0 However, the pressure, of course, was, as you quite rightly say Madam Chairman, the onset of local government reorganisation. We had been advised by a senior member of the council that, unless we had this project, unless the city council got matching funding—and this was quite clear—in time to put this project and its £3.1 million into the 1995-96 budget, then the whole process would have to go to the shadow authority, which had yet to be elected. There have been comments that the shadow authority covered the same area as the Cardiff City Council; that is true, but there was no way of telling who the members of that shadow authority would be, there was no way of telling whether that shadow authority would want to impose its own priorities on that money, and we were also, in the arts, facing three years of complete standstill central funding—£14.189 million for 1995-96, 1996-97 and 1997-98. We had been warned by the Welsh Office that that was our total. The arts were facing the uncertainties of local government reorganisation—we all know of the problems in Theatr Clwyd caused by local government reorganisation—and there was an uncertain feeling. Therefore, there was huge pressure on all parties—the trust, the city council

Hen Lyfrgell hefyd. Byddwn i'n gwadu'n gryf iawn i'r broses gael ei rhuthro neu nad oedd yn drwyadl mewn unrhyw ffordd; fe aethom drwy'r broses honno gyda chrib fân. Aethom drwy'r holl weithdrefnau a oedd wedi'u pennu ar y pryd, ac yr wyf yn meddwl fod hynny'n bwynt pwysig arall. Mae gweithdrefnau wedi newid yn ddiweddarach yng ngoleuni profiad, do, ond ar y pryd fe aethom drwy'r holl weithdrefnau yr oedd gofyn inni eu dilyn.

0 Fodd bynnag, y pwysau, wrth gwrs, fel y dywedasoch yn gwbl gywir, Madam Cadeirydd, oedd dyfodiad ad-drefnu llywodraeth leol. Yr oedd aelod uwch o'r cyngor wedi'n hysbysu pe na byddai'r prosiect hwn gennym, pe na bai cyngor y ddinas yn cael arian cyfatebol—ac yr oedd hyn yn gwbl glir—mewn pryd i roi'r prosiect hwn a'i £3.1 miliwn i mewn i gyllideb 1995-96, yna y byddai'n rhaid i'r holl broses fynd i'r darpar awdurdod, nad oedd wedi'i ethol eto. Clywais sylwadau fod y darpar awdurdod yn ymdrin â'r un maes â Chyngor Dinas Caerdydd; mae hynny'n wir, ond nid oedd unrhyw ffordd o ddweud pwy fyddai aelodau'r darpar awdurdod hwnnw, nid oedd modd dweud a fyddai'r darpar awdurdod hwnnw eisiau gosod ei flaenoriaethau ei hun ar yr arian hwnnw, ac yr oeddem hefyd, yn y celfyddydau, yn wynebu tair blynedd o ddim cynnydd o gwbl yn ein cyllid canolog—£14.189 miliwn ar gyfer 1995-96, 1996-97 ac 1997-98. Yr oedd y Swyddfa Gymreig wedi'n rhybuddio mai dyna oedd ein cyfanswm. Yr oedd y celfyddydau'n wynebu ansicrwydd ad-drefnu llywodraeth leol—gwyddom i gyd am y problemau a achoswyd yn Theatr Clwyd gan ad-drefnu llywodraeth leol—ac yr oedd teimlad o

and the arts council—to get this together by the 1995-96 budget, for that was the last budget that the city council was deciding upon.

ansicrwydd. Felly, yr oedd pwysau enfawr ar bawb—yr ymddiriedolaeth, cyngor y ddinas a chyngor y celfyddydau—i roi hyn yn ei le erbyn cyllideb 1995-96, am mai honno oedd y gyllideb olaf y byddai cyngor y ddinas yn penderfynu arni.

1 Having said all that, one of the things that we made as absolutely cast iron as we could was that this pressure would not lead us to skimp the assessment process, and I do not believe that I have seen any evidence that suggests that we have.

1

Wedi dweud hynny i gyd, un o'r pethau a wnaethom mor gwbl haearnaidd ag y gallem oedd na fyddai'r pwysau hyn yn ein harwain i arbed o gwbl ar y broses asesu, ac ni chredaf fy mod wedi gweld unrhyw dystiolaeth sydd yn awgrymu inni wneud hynny.

2 [192] **Janet Davies:** Thank you. Could you just give an indication of the date, Mr Jenkins, when these decisions were being taken? Was it in 1994 or early 1995?

0 [192] **Janet Davies:** Diolch. A allech roi rhyw syniad o'r dyddiad, Mr Jenkins, pryd y gwnaethpwyd y penderfyniadau hyn? A oedd yn 1994 neu'n gynnar yn 1995?

1

Ms Weston: Could I answer that, please, Chairman?

Ms Weston: A allaf i ateb hynny, os gwelwch yn dda, Gadeirydd?

[193] **Janet Davies:** Yes.

[193] **Janet Davies:** Cewch.

Ms Weston: There is quite an important error in the report in front of you. It is paragraph 2.33. I just wanted to point out one of the errors. That point is a year out. It was actually in March 1995 that the decision was taken. Also, March 1995 was the deadline for the then city council to have its matching funding in place. It was to do with the shadow authority not having the power to bind its successor. So, the decision to grant the application from the Centre for Visual Arts was actually taken in March 1995.

Ms Weston: Mae camgymeriad eithaf pwysig yn yr adroddiad o'ch blaen; sef paragraff 2.33. Dim ond eisiau nodi un o'r camgymeriadau yr oeddwn. Mae'r pwynt hwnnw flwyddyn allan ohoni. Ym mis Mawrth 1995 y gwnaethpwyd y penderfyniad hwnnw mewn gwirionedd. Hefyd, Mawrth 1995 oedd y dyddiad olaf i gyngor y ddinas ar y pryd sicrhau ei gyllid cyfatebol. Yr oedd a wnelo hyn â bod y darpar awdurdod heb y grym i rwymo'i olynnydd. Felly, ym Mawrth 1995 mewn gwirionedd y gwnaethpwyd y penderfyniad i ganiatáu'r cais gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol.

[194] **Janet Davies:** Thank you. That is very

[194] **Janet Davies:** Diolch. Mae hynny o

helpful.

gymorth mawr.

[195] **Alun Cairns:** May I cut across briefly? I wanted to respond to Ms Weston's statement that there are a number of errors in the report. Obviously, that concerns me in terms of the accuracy of the report that we have. If there are errors in the document as we go through it, would you be kind enough to highlight them and also give them to us in writing so that they can be taken into consideration when the Committee makes its deliberations?

[195] **Alun Cairns:** A gaf fi dorri ar draws yn fyr? Yr oedd arnaf eisiau ymateb i osodiad Ms Weston fod nifer o gamgymeriadau yn yr adroddiad. Yn amlwg, mae hynny'n fy mhoeni o ran cywirdeb yr adroddiad sydd gennym. Os oes camgymeriadau yn y ddogfen wrth inni fynd drwyddi, a fyddech gystal â thynnu sylw atynt a hefyd eu rhoi inni mewn ysgrifen fel y gellir eu cymryd i ystyriaeth pan fydd y Pwyllgor yn trafod y mater?

Ms Weston: Thank you for the opportunity.

Ms Weston: Diolch am y cyfle.

Sir Richard Lloyd Jones: Chairman, I think the answer is that we would very much like to do that. We were not consulted at all during the preparation of this report and we believe that, if we had been, we could have helped materially with the deployment of the facts before you, so much so that I rather think that, if we undertook to tell you all our concerns about this report, we would be here until tomorrow. That is perhaps putting it a bit strongly, but—

Syr Richard Lloyd Jones: Gadeirydd, tybiaf mai'r ateb yw y byddem yn falch iawn o wneud hynny. Nid ymgynghorwyd â ni o gwbl yn ystod paratoi'r adroddiad hwn a chredwn, petai hynny wedi digwydd, y gallasem roi cymorth ymarferol gyda'r modd y defnyddiwyd y ffeithiau ger eich bron, yn gymaint felly nes fy mod yn tueddu i feddwl, pe ymgwymerem i ddweud wrthy ch am ein holl bryderon ynghylch yr adroddiad hwn, y byddem yma tan yfory. Efallai fod hynny'n ddweud mawr, ond—

[196] **Alun Cairns:** With the greatest respect, Sir Richard Lloyd Jones, we are in this position now and we want to make the best of the situation we are in—

[196] **Alun Cairns:** Gyda'r parch mwyaf, Syr Richard Lloyd Jones, yr ydym yn y sefyllfa yma yn awr ac am wneud y gorau o'r sefyllfa yr ydym ynnddi—

Sir Richard Lloyd Jones: Yes. We do want to help you with that.

Syr Richard Lloyd Jones: Ydym. Yr ydym yn awyddus i'ch helpu gyda hynny.

[197] **Alun Cairns:** —so there is no point going over old ground. We are in these circumstances. We all understand the reasons behind that and we should use the information that we have, but obviously if we are questioning you on incorrect information, then you need to advise us.

[197] **Alun Cairns:** —felly nid oes diben mynd dros hen dir. Yr ydym yn yr amgylchiadau hyn. Yr ydym i gyd yn deall y rhesymau y tu ôl i hynny a dylem ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym, ond yn amlwg os ydym yn eich holi chi ar wybodaeth anghywir, yna mae angen ichi ddweud

wrthym.

Sir Richard Lloyd Jones: Yes, we will need to warn you. We will try to keep it as short as possible, but we will, I fear, have to flag up some of our concerns.

Syr Richard Lloyd Jones: Bydd, bydd angen i ni'ch rhybuddio. Ceisiwn gadw'r peth mor fyr ag sydd yn bosibl, ond mae arnaf ofn y bydd yn rhaid inni leisio rhai o'n pryderon.

[198] **Janet Davies:** I will just ask Sir John Bourn to comment, and then Mr Jenkins.

[198] **Janet Davies:** Yr wyf am ofyn am sylwadau Syr John Bourn, ac wedyn Mr Jenkins.

Sir John Bourn: Thank you, Chair. I would like to make the point, in reference to what has been said about errors, that this report is the external auditor; it was prepared according to the usual arrangements, that is to say, by our access to the books and records of the body that we audited. The current accounting officer was consulted and agreed entirely with the facts as stated and the interpretations of them. So, I would just like to register the point that the responsible person was properly consulted and signed the report.

Syr John Bourn: Diolch, Gadeirydd. Hoffwn wneud y pwynt, gan gyfeirio at yr hyn a ddywedwyd am gamgymeriadau, mai'r adroddiad hwn yw'r archwilydd allanol; fe'i paratowyd yn unol â'r trefniadau arferol, hynny yw, trwy'n gwaith ar lyfrau a chofnodion y corff yr oeddem yn ei archwilio. Ymgynghorwyd â'r swyddog cyfrifo cyfredol a chytunodd yntau'n llwyr â'r ffeithiau fel y'u nodwyd a'r ffordd y'u dehonglwyd. Felly, hoffwn yn syml gofnodi'r pwynt yr ymgynghorwyd yn y modd priodol â'r person gyfrifol ac y llofnodwyd yr adroddiad ganddo.

Mr Jenkins: We fully recognise the convention that Sir John Bourn has mentioned, but I must add my voice to Sir Richard's and say that, in this instance, the convention has not served this Committee well. There are material mistakes in this report and we have already brushed past one when I said that we had conformed, in our initial assessment of the application, to all the directions and regulations that were current at the time. On page 20 of your report are policy directions issued to the Arts Council of Wales under section 26 (1) of the National Lottery etc. Act 1993. That was commented on in the last hearing. I draw your attention to paragraph 1 in the directions:

Mr Jenkins: Yr ydym yn cydnabod yn llawn y confensiwn a grybwyllwyd gan Syr John Bourn, ond rhaid imi ychwanegu fy llais i at un Syr Richard a dweud nad yw'r confensiwn, yn yr achos hwn, wedi gwasanaethu'r Pwyllgor hwn yn dda. Mae camgymeriadau o sylwedd yn yr adroddiad ac yr ydym eisoes wedi ysgubo heibio i un pan ddywedais ein bod wedi cydymffurfio, yn ein hasesiad cychwynnol o'r cais, â'r holl gyfarwyddiadau a rheoliadau a oedd mewn grym ar y pryd. Ar dudalen 20 yn eich adroddiad ceir cyfarwyddiadau polisi a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru dan adran 26 (1) Deddf y Loteri Genedlaethol ayyb. 1993. Gwnaethpwyd sylw ynglyn â hynny yn y gwrandawriad diwethaf. Tynnaf eich sylw at baragraff 1 yn y cyfarwyddiadau:

'in these Directions, any reference to a 'yn y Cyfarwyddiadau hyn, mae unrhyw

section is a reference to a section of the National Lottery etc. Act 1993 as amended by the National Lottery Act 1998.'

gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ayyb. 1993 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Loteri Genedlaethol 1998.'

Therefore, these are not the directions under which we were operating at the time, in 1995. That is one example, which Mr Cairns asked us to point out. I hope that you will accept that it needed to be pointed out.

Felly, nid y rhain yw'r cyfarwyddiadau yr oeddem yn eu dilyn ar y pryd, yn 1995. Dyna un enghraifft, y gofynnodd Mr Cairns inni ei dangos. Gobeithiaf y derbyniwch fod angen ei dangos.

[199] **Alun Cairns:** May I just close on this? I am grateful that those issues are being pointed out, but I would like to underline a comment that Sir John Bourn made. When the current accounting officer gave evidence to the Committee some weeks ago, none of these errors were pointed out at that time. The accounting officer also highlighted at the time that he had used the records that were available to the Arts Council of Wales as well. So, obviously, this is not a perfect situation, but we need to make the best of it.

[199] **Alun Cairns:** A gaf fi gau ar hyn? Yr wyf yn ddiolchgar bod sylw'n cael ei dynnu at y materion hynny, ond hoffwn danlinellu sylw a wnaeth Syr John Bourn. Pan roddodd y swyddog cyfrifo cyfredol dystiolaeth i'r Pwyllgor rai wythnosau'n ôl, ni thynnwyd sylw at yr un o'r camgymeriadau hyn bryd hynny. Tanlinellodd y swyddog cyfrifo hefyd ar y pryd ei fod wedi defnyddio'r cofnodion a oedd ar gael i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal. Felly, yn amlwg, nid yw hon yn sefyllfa berffaith, ond mae angen inni wneud y gorau ohoni.

[200] **Janet Davies:** Thank you, Alun. I was also going to make the point that the present accounting officer saw the report in draft form and agreed it. Clearly, this is not a totally satisfactory situation for anybody at the moment. We will move on to look at the selection of the external assessor. Alison Halford has some questions to ask.

[200] **Janet Davies:** Diolch, Alun. Yr oeddwn innau yn mynd i wneud y pwynt hefyd fod y swyddog cyfrifo presennol wedi gweld yr adroddiad yn ei ffurf ddrafft ac wedi cytuno arno. Yn amlwg, nid yw hyn yn sefyllfa gwbl foddhaol i neb ar hyn o bryd. Symudwn ymlaen i edrych ar y modd y dewiswyd yr asesydd allanol. Mae gan Alison Halford rai cwestiynau i'w gofyn.

[201] **Alison Halford:** My first two questions have mainly been answered, so I may wander slightly. Thank you very much for coming, and I am sorry, Sir Richard, that you are not very well. Would it be impertinent of me to ask how you got the job?

[201] **Alison Halford:** Mae fy nau gwestiwn cyntaf wedi'u hateb i raddau helaeth, felly efallai y crwydraf rywffaint. Diolch yn fawr iawn ichi am ddod, ac mae'n flin gennyf, Syr Richard, nad ydych yn dda iawn. A fyddai'n ddigywilydd ar fy rhan pe gofynnwn ichi sut y cawsoch y swydd?

Sir Richard Lloyd Jones: Me?

Syr Richard Lloyd Jones: Fi?

[202] **Alison Halford:** Yes.

[202] **Alison Halford:** Ie.

Sir Richard Lloyd Jones: The Secretary of State for Wales appointed me. Now, it would be a National Assembly appointment.

Syr Richard Lloyd Jones: Penodwyd fi gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Bellach, byddai'n benodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

[203] **Alison Halford:** And your term of office was for how long?

[203] **Alison Halford:** Ac yr oedd eich swydd am dymor o ba hyd?

Sir Richard Lloyd Jones: It was for three years initially, and then I was asked to serve another three years, but I asked to serve for two years.

Syr Richard Lloyd Jones: Yr oedd am dair blynedd i ddechrau, ac yna gofynnwyd imi wasanaethu tair blynedd arall, ond gofynnais am gael gwasanaethu am ddwy flynedd.

[204] **Alison Halford:** You are doubtless aware that, although the decision was made by the Audit Committee as a whole, I can probably be blamed for the fact that you are sitting here this afternoon. From what you have said already, perhaps it was fortunate that we persisted in asking you to come. That leads me on to the report—you must have read it as soon as it came out?

[204] **Alison Halford:** Diau eich bod yn ymwybodol, er i'r penderfyniad gael ei wneud gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfanrwydd, y gellir, mae'n debyg, fy meio i am y ffaith eich bod yn eistedd yma y prynhawn yma. O'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn barod, efallai ei bod yn ffodus inni ddal ati i ofyn ichi ddod. Mae hynny'n fy arwain ymlaen at yr adroddiad—rhaid eich bod wedi'i ddarllen cyn gynted ag y daeth allan?

Mr Jenkins: No.

Mr Jenkins: Na.

[205] **Alison Halford:** You did not. Perhaps Sir Richard could answer that, then we will ask Mr Jenkins again.

[205] **Alison Halford:** Ni wnaethoch chi. Efallai y gallai Syr Richard ateb hynny, wedyn fe ofynnwn eto i Mr Jenkins.

Sir Richard Lloyd Jones: I do not know when it came out, I am afraid. The first I was aware of it was when it was being displayed on television.

Syr Richard Lloyd Jones: Ni wn pa bryd y daeth allan, mae gennyf ofn. Y cyntaf i mi wybod amdano oedd pan gafodd ei ddangos ar y teledu.

[206] **Alison Halford:** And what was your reaction?

[206] **Alison Halford:** A beth oedd eich ymateb?

Sir Richard Lloyd Jones: Well, I did not see the report. The report then came to me under cover of a letter from the clerk to the Committee. That is when I got it. I cannot remember the date of that letter—towards the end of November.

Syr Richard Lloyd Jones: Wel, ni welais yr adroddiad. Daeth yr adroddiad ataf fi wedyn gyda llythyr oddi wrth glerc y Pwyllgor. Dyna pryd y cefais i ef. Ni allaf gofio dyddiad y llythyr hwnnw—tua diwedd mis Tachwedd.

[207] **Janet Davies:** I will just clarify those dates. The report was published on 15 November and the letter was sent out the day after the last Committee meeting on 23 November.

[207] **Janet Davies:** Fe egluraf y dyddiadau hynny. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 15 Tachwedd ac anfonwyd y llythyr allan y diwrnod ar ôl cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar 23 Tachwedd.

Sir Richard Lloyd Jones: That sounds right.

Syr Richard Lloyd Jones: Mae hynny'n swnio'n gywir.

[208] **Alison Halford:** Having read the report now, Sir Richard, do you find that it is a very inaccurate document or does £8.8 million just go down the drain because of inexperience or whatever, I wonder?

[208] **Alison Halford:** Wedi darllen yr adroddiad yn awr, Syr Richard, a gredwch ei bod yn ddogfen wallus iawn ynteu a ydyw £8.8 miliwn yn mynd i lawr y draen oherwydd diffyg profiad neu beth bynnag, tybed?

Sir Richard Lloyd Jones: Well, I must take a deep breath here and say that, in my view, £8 million has not gone down the drain.

Syr Richard Lloyd Jones: Wel, rhaid imi gymryd gwynt mawr yn y fan yma a dweud nad yw £8 miliwn wedi mynd i lawr y draen, yn fy marn i.

[209] **Alison Halford:** Please enlarge upon that.

[209] **Alison Halford:** Ymhelaethwch ar hynny, os gwelwch yn dda.

Sir Richard Lloyd Jones: Sorry?

Syr Richard Lloyd Jones: Mae'n ddrwg gennyf?

[210] **Alison Halford:** Please enlarge upon that.

[210] **Alison Halford:** Ymhelaethwch ar hynny, os gwelwch yn dda.

Sir Richard Lloyd Jones: Enlarge upon it. Well, what has happened is that, if we are looking at the lottery money—which was originally, I think, to be £2 million and then

Syr Richard Lloyd Jones: Ymhelaethu arno. Wel, yr hyn sydd wedi digwydd yw, os ydym yn edrych ar arian y loteri—sef swm a oedd i fod yn wreiddiol, yr wyf yn meddwl, yn

there were subsequent awards, as you remember—it was used primarily, as I understand it, with the city council money and the input from the charitable trust, to refurbish the building. So, undoubtedly, it is a very serious matter and I would like at some stage to give my views on what I regard as a key question here, which is what was the alternative at the time for the arts council. However, perhaps I can come back to that.

£2 filiwn ac wedyn cafwyd dyfarniadau dilynol, fel y cofiwch—fe'i defnyddiwyd yn bennaf, yn ôl a ddeallaf, gydag arian cyngor y ddinas a'r cyfraniad gan yr ymddiriedolaeth elusennol, i ailwampio'r adeilad. Felly, heb os, mae'n fater difrifol iawn a hoffwn ryw bryd roi fy sylwadau ar yr hyn y credaf sydd yn gwestiwn allweddol yn y fan hon, sef beth oedd y dewis arall ar y pryd i gyngor y celfyddydau. Fodd bynnag, efallai y caf ddod yn ôl at hynny.

[211] **Alison Halford:** You will be asked a lot of other questions. You were going to say something, Mr Jenkins?

[211] **Alison Halford:** Gofynnir llawer o gwestiynau ichi. Yr oeddech chi'n mynd i ddweud rhywbeth, Mr Jenkins?

Mr Jenkins: I was going to respond to you, Miss Halford, and to thank you for raising that point, for raising a point to invite us, because it is the first opportunity we have had to respond to a report which, quite honestly, is—and I am sorry that I have to use the term—very, very inaccurate. There are wrong conclusions drawn from the report and I am delighted to have this opportunity of actually appearing before you in order to explain those, so thank you for that. However, I also saw the report under cover of a letter coming from the clerk to the Committee.

Mr Jenkins: Yr oeddwn yn mynd i ymateb i chi, Miss Halford, a diolch ichi am godi'r pwynt hwnnw, am godi pwynt i'n gwahodd ni, oherwydd dyma'r cyfle cyntaf a gawsom i ymateb i adroddiad sydd, â siarad yn gwbl onest, yn—ac mae'n ddrwg gennyf orfod defnyddio'r term—wallus iawn, iawn. Tynnir casgliadau anghywir o'r adroddiad ac yr wyf wrth fy modd o gael y cyfle hwn i ymddangos ger eich bron er mwyn egluro'r rheini, felly diolch am hynny. Fodd bynnag, gwelais innau hefyd yr adroddiad dan lythyr a ddaeth oddi wrth glerc y Pwyllgor.

[212] **Alison Halford:** From a housekeeping point of view, have you had circulated to you a letter from Mathew Prichard, dated 29 November?

[212] **Alison Halford:** O safbwynt cadw ty, a ydych wedi derbyn cylchlythyr oddi wrth Mathew Prichard, dyddiedig 29 Tachwedd?

Mr Jenkins: We received it two minutes before coming into this room, and we have not been able to read it or take any view on it.

Mr Jenkins: Fe'i cawsom ddau funud cyn dod i mewn i'r ystafell hon, ac nid ydym wedi gallu ei ddarllen na ffurfio unrhyw farn arno.

[213] **Alison Halford:** Okay. Miss Weston, you have explained in some detail how you took on McCann Matthews Millman, and that it had a good reputation and all the rest of it. Were you working in a vacuum or were you consulting with other people when you were

[213] **Alison Halford:** Iawn. Miss Weston, yr ydych wedi esbonio mewn cryn fanylder sut y bu ichi ddewis McCann Matthews Millman, a bod ganddo enw da ac ati. A oeddech yn gweithio mewn gwactod ynteu a oeddech yn ymgynghori â phobl eraill pan

taking these various decisions?

oeddech yn gwneud yr amryfal benderfyniadau hyn?

Ms Weston: I was consulting with other people in a number of different directions. I have already said that I would, as a matter of course, have consulted the chief executive and the finance director on a matter such as appointing the assessors. I think that it is very important to remember as well that we were working very, very closely with the National Audit Office, as were all the other distributors, as we developed the systems. We carried out a number of consultations with the arts constituency in general and with local authorities. I was personally liaising very closely with other lottery directors in the other three UK countries, and found that to be very, very useful, as we all did, because all of us were moving quite quickly as we developed.

Ms Weston: Yr oeddwn yn ymgynghori â phobl eraill mewn sawl cyfeiriad gwahanol. Yr wyf eisoes wedi dweud y byddwn, yn ôl yr arfer, wedi ymgynghori â'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr cyllid ar fater fel penodi'r aseswyr. Yr wyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn cofio hefyd ein bod yn gweithio'n agos iawn, iawn gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, fel yr oedd yr holl ddsbarthwyr eraill, wrth inni ddatblygu'r systemau. Gwnaethom sawl ymgynghoriad gyda'r byd celfyddydol yn gyffredinol a chydag awdurdodau lleol. Yr oeddwn i'n bersonol yn cydgysylltu'n agos iawn â chyfarwyddwyr loteri eraill yn nhair gwlad arall y DU, a chefais i, fel pawb arall, fod hynny'n ddefnyddiol dros ben, oherwydd yr oeddem i gyd yn symud yn eithaf cyflym wrth inni ddatblygu.

[214] **Alison Halford:** Would you use this company again, in another world?

[214] **Alison Halford:** A fydddech yn defnyddio'r cwmni hwn eto, mewn sefyllfa arall?

Ms Weston: I would not rule it out. I do not think that the assessment that was made at the time has been proved wrong simply because the numbers of visitors did not come about. I do not think that it is a science. I think that the assessment of the estimates that were made by the applicant was reasonable for the time, and so, under certain circumstances, yes, I would use the company again.

Ms Weston: Ni fyddwn yn diystyru'r posibilrwydd. Nid wyf yn meddwl fod yr asesiad a wnaethpwyd ar y pryd wedi'i brofi'n anghywir dim ond oherwydd na wireddwyd y nifer o ymwelwyr. Nid wyf yn meddwl mai gwyddor ydyw. Yr wyf yn meddwl fod yr asesiad o'r amcangyfrifon a wnaethpwyd gan yr ymgeisydd yn rhesymol ar yr adeg, ac felly, dan rai amgylchiadau, byddwn, mi fyddwn yn defnyddio'r cwmni eto.

[215] **Alison Halford:** I have two more questions that will put us back on course, as we all have a script that we work to for ease of reference. Mr Jenkins, can you recall—and it is not desperate if you cannot—how much McCann Matthews Millman was paid?

[215] **Alison Halford:** Mae gennyf ddau gwestiwn pellach a fydd yn ein gosod yn ôl ar y trywydd, gan fod gan bawb ohonom sgript yr ydym yn ei dilyn er hwylustod cyfeirio. Mr Jenkins, a allwch gofio—ac nid yw'n drychineb os nad allwch—faint a dalwyd i McCann Matthews Millman?

Mr Jenkins: I cannot, except that I would expect it to be the normal fee for the number of days' work that it would do. I would like to confirm what Miss Weston was saying; the appointment of the panel of assessors was a fairly important matter and there were certain fees that were given. I was having weekly meetings at that time with Miss Weston, where we were going through all these matters. I cannot specifically recall consulting on this one, but I am absolutely certain that it would have been on the list—

Mr Jenkins: Ni allaf, ac eithrio y disgwyliwn iddo fod y ffi arferol am y nifer o ddiwrnodau o waith y byddai yn ei wneud. Hoffwn gadarnhau'r hyn yr oedd Miss Weston yn ei ddweud; yr oedd penodi'r panel aseswyr yn fater gweddol bwysig ac yr oedd rhai ffioedd penodol a roddwyd. Yr oeddwn i'n cael cyfarfodydd wythnosol ar y pryd gyda Miss Weston, lle byddem yn mynd drwy'r holl faterion hyn. Ni allaf gofio'n benodol inni ymgynghori ar hwn, ond yr wyf yn berffaith sicr y byddai wedi bod ar y rhestr—

[216] **Alison Halford:** Does your memory allow you to recall that the contract, apparently, did not provide for financial redress in the case of being given unsound advice?

[216] **Alison Halford:** A ydyw'ch cof yn caniatáu ichi gofio nad oedd y contract, mae'n debyg, yn darparu ar gyfer digolledu ariannol pe rhoddid cyngor diffygiol?

Mr Jenkins: I think that one of the things that we required of all our assessors was a professional indemnity clause, was it not?

Mr Jenkins: Yr wyf yn meddwl mai un o'r pethau yr oeddem yn ei fynnu gan ein holl aseswyr oedd cymal indemnïad proffesiynol, onid e?

Ms Weston: That is one of the things that PricewaterhouseCoopers checked at the point where it appointed people.

Ms Weston: Dyna un o'r pethau a wiriwyd gan PricewaterhouseCoopers ar yr adeg pan oedd yn penodi pobl.

[217] **Alison Halford:** Other colleagues will doubtless explore that later. My last question is to Mr Jenkins. Peter Tyndall advised us that, according to McCann Matthews Millman, the forecast visitor numbers were realistic, perhaps even pessimistic. Did you seek to test this key assumption that proved so disastrously wrong?

[217] **Alison Halford:** Bydd cyd-Aelodau eraill yn siwr o ymchwilio i hynny yn ddiweddarach. I Mr Jenkins y mae fy nghwestiwn olaf. Dywedodd Peter Tyndall wrthym fod y niferoedd ymwelwyr a ragwelwyd, yn ôl McCann Matthews Millman, yn realistig, efallai'n besimistaidd hyd yn oed. A wnaethoch chi geisio profi'r rhagdybiaeth allweddol hon a brofodd mor drychinebus o anghywir?

Mr Jenkins: Miss Halford, I hope that the Committee will forgive me if I take up a little time on this, because it is a central point. I hope that you bear with me; I will be

Mr Jenkins: Miss Halford, yr wyf yn gobeithio y maddeua'r Pwyllgor imi os cymeraf ychydig o amser ar hyn, oherwydd y mae'n bwynt canolog. Gobeithiaf y

bandying some figures around. One of the main criticisms in this report is a criticism that many of the key decisions followed on from the 1992 feasibility report. I find that, in this instance, difficult to match up with the opening figures for visitors of the CVA. For instance, the feasibility study suggests a range between 282,000 and 340,000, whereas the application comes at 252,000 to 260,000. There is quite a variation in those figures. The report—

maddeuwch imi; byddaf yn taflu rhai ffigurau o gwmpas. Un o'r prif feirniadaethau yn yr adroddiad hwn yw beirniadaeth fod llawer o'r penderfyniadau allweddol wedi deillio o adroddiad ymarferoldeb 1992. Yr wyf yn cael hynny, yn yr achos hwn, yn anodd i'w gysoni â'r ffigurau agoriadol ar gyfer ymwelwyr â'r ganolfan. Er enghraifft, mae'r astudiaeth ymarferoldeb yn awgrymu amrediad rhwng 282,000 a 340,000, tra bod y cais yn sôn am 252,000 i 260,000. Mae cryn amrywiad yn y ffigurau hynny. Nid yw'r adroddiad—

[218] **Alison Halford:** Why? How?

[218] **Alison Halford:** Pam? Sut?

Mr Jenkins: The report does not explain, I am afraid, why that changed. However, there was a reduction before this came into our sphere of operation. We started off, not as the report suggests at 282,000, but at 252,000—let us say, a quarter of a million. Figures 7 and 8 in the report purport to show the comparator visitor numbers for other cultural establishments. However, what the Committee may not have fully realised is that those comparator figures are 1991 figures, whereas we were doing this exercise in 1995. We have not had time to research all the comparators, but I have looked at the most relevant ones—those for the National Museums and Galleries of Wales. It may interest the Committee to realise that the comparator figures for the national museums at the time that we were actually considering this application were as follows. The report suggests that they were 157,000 in Museum Place and 288,000 at St Fagans. The actual figures were, in 1993-94—that would be the last complete year that we would have had knowledge of at the time we were considering this report—the last figures were, for Cathays Park, not 157,000 but 244,000 and, in St Fagans, not 288,000 but 408,000. I find it surprising that the report did not actually check up what the current comparators were, but merely reproduced the comparators shown for 1991. I believe that the comparators that were current at the time suggest that there was a much firmer basis for forecasting potential visitor numbers of

Mr Jenkins: Nid yw'r adroddiad yn egluro, mae gennyf ofn, pam y newidiodd hynny. Fodd bynnag, yr oedd lleihad cyn i hyn ddod i'n maes gweithredu ni. Dechreuasom ni, nid fel yr awgryma'r adroddiad ar 282,000, ond ar 252,000— chwarter miliwn, dyweder. Mae ffigurau 7 ac 8 yn yr adroddiad yn honni dangos y niferoedd ymwelwyr cymharol ar gyfer sefydliadau diwylliannol eraill. Fodd bynnag, yr hyn na sylweddolodd y Pwyllgor yn llawn efallai yw mai ffigurau 1991 yw'r ffigurau cymharol hynny, tra'r oeddem ni'n gwneud yr ymarfer hwn yn 1995. Nid ydym wedi cael amser i ymchwilio i'r holl gymaryddion, ond yr wyf wedi edrych ar y rhai mwyaf perthnasol—y rheini ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Efallai y bydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor sylweddoli fod y ffigurau cymharol ar gyfer yr amgueddfeydd cenedlaethol ar yr adeg yr oeddem ni wrthi'n ystyried y cais hwn fel a ganlyn. Awgryma'r adroddiad y cafwyd 157,000 ym Mhlas yr Amgueddfa a 288,000 yn Sain Ffagan. Y ffigurau gwirioneddol, yn 1993-94—sef y flwyddyn gyfan olaf y buasai gennym wybodaeth amdani ar yr adeg pan oeddem yn ystyried yr adroddiad hwn—y ffigurau diwethaf oedd, ar gyfer Parc Cathays, nid 157,000 ond 244,000 ac, yn Sain Ffagan, nid 288,000 ond 408,000. Yr wyf yn synnu nad aeth yr adroddiad ati i wirio beth oedd y ffigurau cymharol cyfredol, ond dim ond atgynhyrchu'r ffigurau cymharol a ddangoswyd ar gyfer 1991. Credaf fod y ffigurau cymharol a oedd yn gyfredol ar y

250,000 for the Centre for Visual Arts because they were far less than St Fagans. I do not know what the others were.

pryd yn awgrymu fod sail lawer cadarnach i ragweld niferoedd ymwelwyr potensial o 250,000 i Ganolfan y Celfyddydau Gweledol oherwydd yr oeddent yn llawer llai na Sain Ffagan. Ni wn beth oedd y rhai eraill.

0 I will go on to talk about a couple of other features in that opening section, because it is an important element in the report. The statement that they were quite—and I think Miss Halford quoted that the assessor actually said that the figures may have even been pessimistic. This gives a little more credence, I think, to that point of view. It is compared with St Fagans, and the report says that, of course, you cannot compare it with St Fagans, because St Fagans is a beautiful 50 acre site with family days out and all the rest of it. That is true, but St Fagans is also very much subject to the weather and to access problems. You cannot very easily get out of St Fagans via public transport. The CVA was conceived as being absolutely complementary. That is another point that the report makes, that it was not part of a larger attraction. However, the CVA was the prime site in the centre of Cardiff, within easy reach of the national museum, within easy reach of Cardiff castle, and next door to St David's Hall. It was always conceived as filling that cultural gap and it was in the city centre—I will finish on this—which is an attraction in its own right.

Af ymlaen i siarad am ychydig o bethau eraill yn yr adran agoriadol honno, oherwydd mae'n elfen bwysig yn yr adroddiad. Yr oedd y gosodiad eu bod yn eithaf—ac yr wyf yn meddwl i Miss Halford ddyfynnu bod yr asesydd mewn gwirionedd wedi dweud y gallasai'r ffigurau hyd yn oed fod yn besimistaidd. Mae hyn yn rhoi ychydig mwy o gred, fe dybiaf, i'r safbwynt hwnnw. Fe'i cymherir â Sain Ffagan, a dywed yr adroddiad na allwch, wrth reswm, ei gymharu â Sain Ffagan, am fod Sain Ffagan yn safle hyfryd 50 erw gyda dyddiau allan i'r teulu a'r gweddill i gyd. Mae hynny'n wir, ond mae Sain Ffagan hefyd yn ddibynnol iawn ar y tywydd ac ar broblemau cyrraedd y lle. Nid yw'n hawdd iawn mynd allan o Sain Ffagan ar drafnidiaeth gyhoeddus. Rhagwelwyd y byddai'r ganolfan yn hollol ategol. Dyna bwynt arall a wna'r adroddiad, sef nad oedd yn rhan o atyniad mwy. Fodd bynnag, yr oedd y ganolfan ar y prif safle yng nghanol Caerdydd, yn hygyrch i'r amgueddfa genedlaethol, yn hygyrch i gastell Caerdydd, a'r drws nesaf i Neuadd Dewi Sant. Y syniad o'r cychwyn oedd y byddai'n llanw'r bwlch diwylliannol hwnnw ac yr oedd yng nghanol y ddinas—diweddaf ar hyn—sydd yn atyniad ynddo'i hun.

1 [219] **Alison Halford:** Thank you for that. My final comment is that I have been on this Audit Committee since its inception in 1999. This is the first time that the work of the Auditor General has been challenged in any shape or form. Therefore, we are in uncharted waters. Thank you, Chair.

0 [219] **Alison Halford:** Diolch ichi am hynny. Fy sylw olaf yw fy mod wedi bod ar y Pwyllgor Archwilio hwn ers ei sefydlu yn 1999. Dyma'r tro cyntaf i waith yr Archwilydd Cyffredinol gael ei herio mewn unrhyw fodd. Felly, yr ydym mewn dyfroedd dieithr. Diolch, Gadeirydd.

- 1
- 2 [220] **Janet Davies:** Thank you, Alison. I will follow up on visitor figures. Could you physically have got 250,000 visitors through that building in a year?
- 3
- 3 **Mr Jenkins:** I have no doubt about it in my own mind.
- 4
- 4 [221] **Janet Davies:** Thank you.
- 5
- 5 **Sir Richard Lloyd Jones:** Madam Chair, there is a relevant point in the report. Paragraph 2.12 suggests that we might have guessed from the low figures going through the Oriel gallery that there was something wrong with the visitor figures. However, the fact is that the Oriel gallery was very small. You could not put big shows on there, so you would not get big visitor numbers.
- 6
- 6 [222] **Janet Davies:** Thank you, Sir Richard. I should expand on something that Alison said at this point. Clearly, criticism of the National Audit Office is coming through at the moment. However, the National Audit Office took its facts and statements from the evidence that existed. It also had the agreement of the present accounting officer, whom we all know is recently in post, which is a particularly unfortunate situation at the moment. He, we can assume, took the
- 7
- 7 [221] **Janet Davies:** Diolch.
- 8
- 8 **Syr Richard Lloyd Jones:** Madam Cadeirydd, y mae pwynt perthnasol yn yr adroddiad. Awgryma paragraff 2.12 y gallem fod wedi dyfalu ar sail y ffigurau isel a oedd yn mynd drwy'r Oriel fod rhywbeth o'i le ar y ffigurau ymwelwyr. Fodd bynnag, y ffaith yw fod yr Oriel yn fach iawn. Ni allech gynnal arddangosiadau mawr yn y fan honno, felly ni chaech niferoedd mawr o ymwelwyr.
- 9
- 10 [222] **Janet Davies:** Diolch, Syr Richard. Dylwn ymhelaethu ar rywbeth a ddywedodd Alison yn y fan hon. Yn amlwg, mae beirniadaeth o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cymerodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei ffeithiau a'i datganiadau o'r dystiolaeth a fodolai. Yr oedd ganddi gytundeb y swyddog cyfrifo presennol hefyd, sydd, fe wyddom, yn newydd i'r swydd, sy'n sefyllfa arbennig o anffodus ar hyn o

information from the evidence that he had, which came from previous days. So, there is a bit of a sort of circle developing here. I do not know whether it will be possible for the Audit Committee to get enlightenment and clarification this afternoon on what is clearly a difficult situation. I hope that it may be possible. This is not an ideal scenario to get that sort of clarification. I am sure that we will strive to do that. However, I feel that criticism and bringing this down to one side against another is not a particularly helpful way of proceeding. I always hope to get lessons for the future, rather than criticisms of the past, from these Committee meetings. I think that I will leave it at that for the moment.

bryd. Cymerodd yntau, gallwn dybio, y wybodaeth o'r dystiolaeth a oedd ganddo, a ddaeth o adeg yn y gorffennol. Felly, mae ychydig o ryw fath o gylch yn datblygu yma. Ni wn a fydd modd i'r Pwyllgor Archwilio gael ei oleuo a chael eglurhad y prynhawn yma ar sefyllfa sydd yn amlwg yn un anodd. Gobeithiaf y gall hynny fod yn bosibl. Nid yw hon yn sefyllfa ddelfrydol i gael y math hwnnw o eglurhad. Yr wyf yn siwr yr ymdrechwn i gyflawni hynny. Fodd bynnag, teimlaf nad yw beirniadu a thynnu hyn i lawr i un ochr yn erbyn y llall yn ffordd arbennig o fuddiol o fynd rhagom. Byddaf fi bob amser yn gobeithio cael gwersi i'r dyfodol, yn hytrach na beirniadaeth o'r gorffennol, o'r cyfarfodydd Pwyllgor hyn. Yr wyf yn meddwl y'i gadawaf yn y fan honno am y tro.

11

7 [223] **Alison Halford:** Chair, may I just say that I am keeping an open mind. I am not making any criticism of anybody.

12 [223] **Alison Halford:** Gadeirydd, a gaf fi ddweud fy mod yn cadw meddwl agored. Nid wyf yn beirniadu neb.

13

8 **Sir Richard Lloyd Jones:** Chair, I think that I speak on behalf of all of us in saying that we do not want to be disputatious. The trouble is, in making these points, we must sound disputatious. We know that you have a job to do. We will, I know, be willing to help you do it to the best of your ability. However, we want, without sounding disputatious, if possible, to bring out the facts which we think that you need to have before you before you reach your conclusions.

Syr Richard Lloyd Jones: Gadeirydd, credaf fy mod yn siarad ar ran pawb ohonom wrth ddweud nad oes arnom eisiau mynd i gecru. Y trafferth yw, wrth wneud y pwyntiau hyn, fod yn rhaid inni swnio'n gecrus. Gwyddom fod gennyh orchwyl i'w chyflawni. Byddwn, mi wn, yn fodlon eich helpu i'w chyflawni orau y gallwch. Fodd bynnag, ein hawydd ni, heb swnio'n gecrus, os oes modd, yw amlygu'r ffeithiau y credwn fod angen ichi eu cael o'ch blaen cyn ichi ddod i'ch casgliadau.

0

9 [224] **Janet Davies:** Thank you. Do

1 [224] **Janet Davies:** Diolch. A oes

- you wish to add to that, Mr Jenkins?
- 2
- 10 **Mr Jenkins:** I would just like to reiterate what I said a little earlier, Madam Chairman. I recognise the convention under which this report has been written. What I think I said was that the convention did not serve the report well. I fully recognise the boundaries within which the National Audit Office was working. That is what was the problem, compounded, of course, by the change of personnel in the arts council.
- 3 **Mr Jenkins:** Hoffwn ond ailadrodd yr hyn a ddywedais ychydig yn gynharach, Madam Cadeirydd. Sylweddolaf y confensiwn yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn oddi tano. Yr hyn y credaf imi ei ddweud oedd nad oedd y confensiwn yn gwasanaethu'r adroddiad yn dda. Sylweddolaf yn llawn y ffiniau yr oedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithio o fewn iddynt. Dyna'r hyn oedd y broblem, a honno wedi'i gwaethygu, wrth gwrs, gan y newid personél yng nghyngor y celfyddydau.
- 4
- 11 [225] **Janet Davies:** Thank you. Jocelyn, you wish to ask some questions?
- 5 [225] **Janet Davies:** Diolch. Jocelyn, a ydych chi'n dymuno gofyn rhai cwestiynau?
- 6
- 12 [226] **Jocelyn Davies:** Thank you, Chair. I have a question for Mr Jenkins. I will ask you the same question that I put in the last session to people who were not able to answer it at the time. The external assessor highlighted a number of key concerns about the project, about the level of expertise within the management of the centre, the weaknesses in the marketing of the centre and the lack of private sector sponsorship. Why were these concerns not acted upon? Why pay for advice and then simply ignore it?
- 7 [226] **Jocelyn Davies:** Diolch, Gadeirydd. Mae gennyf gwestiwn i Mr Jenkins. Gofynnaf ichi'r un cwestiwn ag a ofynnais yn y sesiwn diwethaf i bobl nad oeddent yn gallu ei ateb ar y pryd. Amlygodd yr asesydd allanol nifer o bryderon allweddol ynghylch y prosiect, ynghylch y lefel o arbenigedd o fewn rheolaeth y ganolfan, y gwendidau o ran marchnata'r ganolfan a'r diffyg nawdd gan y sector preifat. Pam na weithredwyd ar y pryderon hyn? Pam talu am gyngor a'i anwybyddu wedyn?
- 8
- 13 **Mr Jenkins:** Can I ask you to refer to the paragraph? My notes refer to paragraphs. Are we talking of
- 9 **Mr Jenkins:** A gaf fi ofyn ichi gyfeirio at y paragraff? Mae fy nodiadau i'n cyfeirio at baragraffau. Ai am baragraff 2.25 ymlaen yr ydym yn

	paragraph 2.25 onwards?		sôn?
		10	
14	[227] Jocelyn Davies: It was a question which I asked last time, and I may not have been referring to a specific paragraph.	11	[227] Jocelyn Davies: Cwestiwn a ofynnais y tro diwethaf ydoedd, ac efallai nad oeddwn yn cyfeirio at baragraff penodol.
		12	
15	Mr Jenkins: I am sorry. Is it concerns about the levels of expertise in the centre? That is not the one, is it?	13	Mr Jenkins: Mae'n ddrwg gennyf. Ai pryderon ynghylch y lefel o arbenigedd yn y ganolfan ydyw? Nid hwnnw yw'r un, nage?
		14	
16	[228] Jocelyn Davies: Yes, the external assessor's report raised concerns—	15	[228] Jocelyn Davies: Ie, cododd adroddiad yr asesydd allanol bryderon—
		16	
17	Mr Jenkins: Yes it did, about marketing for a start—	17	Mr Jenkins: Do, fe wnaeth, ynghylch marchnata yn un peth—
		18	
18	[229] Jocelyn Davies: It raised concerns about the level of expertise in the management of the centre, weaknesses in the marketing of the centre and the lack of private sector sponsorship. The question I put last time was: why did you pay for that advice and then not take it?	19	[229] Jocelyn Davies: Cododd bryderon ynghylch y lefel o arbenigedd yn rheolaeth y ganolfan, gwendidau o ran marchnata'r ganolfan a diffyg nawdd gan y sector preifat. Y cwestiwn a ofynnais y tro diwethaf oedd: pam y bu ichi dalu am y cyngor hwnnw ac wedyn peidio ei gymryd?
		20	
19	Mr Jenkins: May I respond by saying that we did take it and the documentation proves that we did. Paragraph 2.25 talks about the marketing and the lack of expertise in marketing. It does say that	21	Mr Jenkins: A gaf fi ymateb drwy ddweud y gwnaethom ei gymryd a bod y ddogfennaeth yn profi inni wneud hynny. Sonia paragraff 2.25 am y marchnata a'r diffyg arbenigedd mewn marchnata. Y mae'n dweud y
		22	
20	'The Arts Council was again alerted to	23	'Tynnwyd sylw Cyngor y

	concerns about the marketing of the Centre for Visual Arts project'		Celfyddydau at bryderon ynglyn â marchnata prosiect Canolfan y Celfyddydau Gweledol unwaith eto'
		24	
21	in paragraph 2.26. Then, in paragraph 2.28, it says that	25	ym mharagraff 2.26. Wedyn, ym mharagraff 2.28, dywedir
		26	
22	'The Arts Council of Wales did not act on these concerns of the external assessor in considering whether to award lottery funding.'	27	'Ni weithredodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar bryderon yr asesydd allanol wrth ystyried a ddylid rhoi nawdd loteri.'
23		28	
24	Those concerns were expressed in the assessor's report on the first application. I can now quote from the assessor's report on the second application.	29	Mynegwyd y pryderon hynny yn adroddiad yr asesydd ar y cais cyntaf. Gallaf yn awr ddyfynnu o adroddiad yr asesydd ar yr ail gais.
		30	
25	I am sorry, I have to look at my notes again. I think that it is important, so I hope that the Committee will bear with me. The same assessor reported on the CVA's second application for lottery funding, in 1997, and this is what the assessor said:	31	Mae'n ddrwg gennyf, rhaid imi edrych ar fy nodiadau eto. Credaf ei fod yn bwysig, felly gobeithio y bydd y Pwyllgor yn amyneddgar gyda mi. Adroddodd yr un asesydd ar ail gais y ganolfan am arian loteri, yn 1997, a dyma a ddywedodd yr asesydd:
		32	
	'Following observations in the previous assessment concerning weaknesses in planning for marketing, the applicant has acted swiftly and effectively to place marketing at the core of the project's management, including becoming a member of Cardiff Arts Marketing'—		'Yn dilyn sylwadau yn yr asesiad blaenorol ynghylch gwendidau yn y cynllunio ar gyfer marchnata, mae'r ymgeisydd wedi gweithredu'n fuan ac effeithiol i osod marchnata wrth graidd rheolaeth y prosiect, gan gynnwys ymuno â Marchnata Celfyddydau Caerdydd'—
	which is another recommendation of the assessor the first time—		sef rhywbeth arall a argymhellwyd gan yr asesydd y tro cyntaf—
	'An experienced arts manager has been employed as a consultant to address pre-		'Cyflogwyd rheolwr celfyddydau profiadol fel ymgynghorydd i ymdrin â materion cyn agor a

opening and launch issues, including branding, naming and corporate identity. The analyses are comprehensive, as is the proposed action programme.'

materion lansio, yn cynnwys brandio, enwi a hunaniaeth gorfforaethol. Mae'r dadansoddiadau'n gynhwysfawr, felly hefyd y rhaglen weithredu a gynigiwyd.'

I would suggest to the Committee that that indicates that we did take action. It brings out another big principle here, Madam Chair, that every assessor's report was communicated to the applicant and, as you can see in this instance, the applicant actually took note of it. So we did not ignore what the assessor had said.

0 Awgrymaf i'r Pwyllgor fod hynny'n dangos y bu inni weithredu. Mae'n tanlinellu egwyddor fawr arall yn y fan yma, Madam Cadeirydd, sef y cyfathrebwyd pob adroddiad asesydd i'r ymgeisydd ac, fel y gallwch weld yn yr achos hwn, cymerodd yr ymgeisydd sylw ohono. Felly nid anwybyddwyd yr hyn a ddywedodd yr asesydd.

[230] **Jocelyn Davies:** What about the monitor in 1998? I will read the question that I put to Mr Tyndall last time.

[230] **Jocelyn Davies:** Beth am y monitor yn 1998? Darllenaf y cwestiwn a ofynnais i Mr Tyndall y tro diwethaf.

'In early 1998, the monitor, who was appointed by the arts council, alerted you to problems and recommended that the council require the applicant to undertake a sensitivity analysis in relation to income streams and to consider the worst case scenario. Why did you not do that? Why pay for advice and then ignore it?'

'Yn gynnar yn 1998, tynnodd y monitor, a benodwyd gan gyngor y celfyddydau, eich sylw ar broblemau, ac argymhellodd y dylai'r cyngor fynnu bod yr ymgeisydd yn ymgymryd â dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â ffrydiau incwm ac ystyried y sefyllfa waethaf a allai ddigwydd. Pam na wnaethoch chi hynny? Pam talu am gyngor ac wedyn ei anwybyddu?'

Mr Tyndall said that he could find no evidence at all that that advice had been acted upon.

Dywedodd Mr Tyndall na allai ganfod unrhyw dystiolaeth o gwbl y gweithredwyd ar y cyngor hwnnw.

Mr Jenkins: I am afraid I will have to—that was after my time—transfer that to Miss Weston, if you do not mind.

Mr Jenkins: Mae arnaf ofn y bydd yn rhaid imi—yr oedd hynny ar ôl fy amser i—drosglwyddo hynny i Miss Weston, os nad oes ots gennyh.

[231] **Jocelyn Davies:** Fine.

[231] **Jocelyn Davies:** Popeth yn iawn.

Ms Weston: I, too, have my notes ordered into paragraph numbers from the report, and so could you bear with me please.

Ms Weston: Mae fy nodiadau innau, hefyd, wedi'u trefnu yn ôl rhifau paragraffau o'r adroddiad, ac felly a fyddech gystal â bod yn amyneddgar gyda mi.

[232] **Jocelyn Davies:** We are talking about 1998, and the monitor who was appointed by the arts council did alert you to problems and recommended that the council require the applicant to undertake a sensitivity analysis in relation to income streams. The gentleman that came before us last time told us that he could find no evidence that any intervention took place following that recommendation, and so I am asking whether you have any evidence that there was any intervention following that?

[232] **Jocelyn Davies:** Yr ydym yn sôn am 1998, a bod y monitor a benodwyd gan gyngor y celfyddydau wedi tynnu'ch sylw at broblemau ac wedi argymhell y dylai'r cyngor fynnu bod yr ymgeisydd yn gwneud dadansoddiad sensitifrwydd mewn perthynas â ffrydiau incwm. Dywedodd y gwr a ddaeth ger ein bron y tro diwethaf na allai ef ganfod unrhyw dystiolaeth y gweithredwyd o gwbl yn dilyn yr argymhelliad hwnnw, ac felly yr wyf yn gofyn a oes gennych unrhyw dystiolaeth y bu unrhyw weithredu yn dilyn hynny?

Ms Weston: Yes, yes. The—

Ms Weston: Oes, oes. Yr—

[233] **Jocelyn Davies:** Can I ask you why the gentleman could not find any of that in the files that he currently holds in his position?

[233] **Jocelyn Davies:** A gaf fi ofyn ichi pam na allai'r gwr ganfod dim o hynny yn y ffeiliau sydd ganddo ef ar hyn o bryd yn ei safle ef?

Ms Weston: I cannot answer that, but what I can tell you is that I needed to refresh my memory because it is some time ago, and the National Audit Office kindly invited me to go into its office and look through the documents that it held, and so—I think that those documents came from the arts council—so I know that they exist.

Ms Weston: Ni allaf ateb hynny, ond yr hyn y gallaf ddweud wrthy ch yw y bu angen i mi brocio fy nghof oherwydd y mae beth amser yn ôl, ac y bu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol mor garedig â'm gwahodd i fynd i'w swyddfa ac edrych drwy'r dogfennau oedd ganddi, ac felly—yr wyf yn meddwl i'r dogfennau hynny ddod oddi wrth gyngor y celfyddydau—felly gwn eu bod yn bodoli.

[234] **Jocelyn Davies:** Well, I am at a loss really, Chair. We had somebody giving us evidence on the basis of this report, who said that he could not find in those files any evidence that that advice was acted upon, and we have somebody now that tells us that it was acted upon. I am at a loss, really. If it was acted upon, why was a further grant given?

[234] **Jocelyn Davies:** Wel, yr wyf ar goll, wir, Gadeirydd. Cawsom rywun yn rhoi tystiolaeth inni ar sail yr adroddiad hwn, a ddywedodd na allai ganfod yn y ffeiliau hynny unrhyw dystiolaeth y gweithredwyd ar y cyngor hwnnw, ac mae gennym rywun yn awr sydd yn dweud wrthym y gweithredwyd arno. Yr wyf ar goll, wir. Os gweithredwyd arno, pam y rhoddwyd grant pellach?

Ms Weston: I am going to have to speak from memory, because I cannot find my section in the notes, but that particular report was acted on in the standard way of sharing it with the applicant and discussing what they were going to do about it. I believe that at that point—I think this is the report that says certain aspects of the application have yet to be assessed, and there is a basic misunderstanding in this report, because it seems not to realise that the assessor then went on to assess the things that were within his competence, things like quality of design, and so we were assured on those points. The one thing that had not been assessed by that particular assessor was the business plan. That had previously been assessed by the third McCann Matthews Millman assessment and that said that the applicant's business plan had been prepared by Deloitte and Touche, in consultation with them, obviously. That had already happened, but when this assessor's report came to us, we went back to the CVA and said that we required further assurance, and the CVA reappointed Deloitte and Touche. It was at the same time as fixing on a delayed opening date, and the CVA was asking Deloitte and Touche to reappraise the business plan in the light of the delayed opening date and in the light of those comments that we gave it. I have a letter confirming that that was the case.

[235] **Jocelyn Davies:** It was in 1998. We were told by Mr Tyndall that, by that point, the arts council was requesting information from the Centre for Visual Arts, which it was not getting. We were quite clearly given the impression that information was not forthcoming from the Centre for Visual Arts. We heard earlier that there may be a disagreement about the forecasted numbers, whether it was 250,000 or 282,000, but the actual numbers of people who visited was fewer than 50,000. It seems to me that the CVA continued to receive lottery funding even though anybody could recognise—and

Ms Weston: Bydd yn rhaid imi siarad o'm cof, oherwydd ni allaf ganfod fy adran yn y nodiadau, ond gweithredwyd ar yr adroddiad arbennig hwnnw yn y ffordd arferol o'i rannu gyda'r ymgeisydd a thrafod beth yr oeddent am ei wneud yn ei gylch. Credaf ar y pwynt hwnnw—yr wyf yn meddwl mai dyma'r adroddiad sydd yn dweud fod rhai agweddau o'r cais eto heb eu hasesu, ac mae camddealltwriaeth sylfaenol yn yr adroddiad hwn, gan nad yw fel petai'n sylweddoli fod yr asesydd wedyn wedi mynd ymlaen i asesu'r pethau a oedd o fewn ei gymhwysedd, pethau fel ansawdd y dyluniad, ac felly ein bod wedi cael sicrwydd ar y pwyntiau hynny. Yr un peth nad oedd wedi'i asesu gan yr asesydd arbennig hwnnw oedd y cynllun busnes. Yr oedd hwnnw wedi'i asesu ynghynt gan drydydd asesiad McCann Matthews Millman a dywedodd hwnnw fod cynllun busnes yr ymgeisydd wedi'i baratoi gan Deloitte and Touche, mewn ymgynghoriad â hwy, wrth reswm. Yr oedd hynny eisoes wedi digwydd, ond pan ddaeth yr adroddiad asesydd hwn atom ni, aethom yn ôl at y ganolfan a dweud bod arnom eisiau sicrwydd pellach, ac ailbenododd y ganolfan Deloitte and Touche. Yr oedd ar yr un pryd â threfnu i oedi'r dyddiad agor, ac yr oedd y ganolfan yn gofyn i Deloitte and Touche ailwerthuso'r cynllun busnes yng ngoleuni'r dyddiad agor gohiriedig ac yng ngoleuni'r sylwadau hynny a roesom ni iddo. Mae gennyf lythyr yn cadarnhau mai felly y bu.

[235] **Jocelyn Davies:** Yn 1998 yr oedd hyn. Dywedodd Mr Tyndall wrthym fod cyngor y celfyddydau erbyn hynny yn gofyn am wybodaeth gan Ganolfan y Celfyddydau Gweledol, nad oedd yn ei chael. Rhoddwyd yr argraff gwbl glir i ni nad oedd y wybodaeth yn dod oddi wrth Ganolfan y Celfyddydau Gweledol. Clywsom yn gynharach y gallai fod anghytundeb ynghylch y niferoedd a ragwelwyd, pa un ai 250,000 ynteu 282,000 ydoedd, ond yr oedd y niferoedd gwirioneddol o bobl a ymwelodd yn llai na 50,000. Mae'n ymddangos i mi fod y ganolfan wedi parhau i dderbyn arian loteri er y gallai unrhyw un

you do not have to be an expert to know this—that that is a failure. It is less than one-fifth. Whether you say 250,000 or 280,000, fewer than 50,000 people is a lot less than the expected forecast.

Ms Weston: Yes, it is.

[236] **Jocelyn Davies:** So, it seems to me that concerns were being expressed and I would like to know why a third lottery grant was given when the client was withholding relevant information and the visitor numbers were so appallingly low?

Ms Weston: Well, the visitor numbers did not exist at that point, because the centre had not opened. The concerns that the assessors were expressing were addressed by the arts council, and by the client, and we put in appropriate assessors at every point. The client had taken action that was appropriate in any case, such as appointing Deloitte and Touche to review its business plan. There was no question of needing to tell the CVA what to do, because it was already doing it. Of course, the visitor numbers were lower than expected. They were actually nearer a quarter, rather than a fifth, of the revised estimates, in the end. Of course, you are right. Of course, the thing did not succeed.

0 However, I would like to say something about the information that we were getting. It was difficult at times to get information from the CVA, but not impossible. The report here gives an example of not having monthly management accounts for about nine months. It was in something like July 1999, I think, from memory. However, it does not mention that the

weld—ac nid oes angen bod yn arbenigwr i wybod hyn—fod hynny'n fethiant. Mae'n llai nag un rhan o bump. Pa un ai y dywedwch 250,000 neu 282,000, mae llai na 50,000 o bobl yn llawer llai na'r rhagolwg a ddisgwyliwyd.

Ms Weston: Ydyw, y mae.

[236] **Jocelyn Davies:** Felly, mae'n ymddangos i mi fod pryderon yn cael eu lleisio a hoffwn wybod pam y rhoddwyd trydydd grant loteri pan oedd y cleient yn dal gwybodaeth berthnasol yn ôl a phan oedd y niferoedd ymwelwyr mor ofnadwy o isel?

Ms Weston: Wel, nid oedd y niferoedd ymwelwyr yn bodoli bryd hynny, oherwydd nid oedd y ganolfan wedi agor. Cafodd y pryderon yr oedd yr aseswyr yn eu mynegi sylw gan gyngor y celfyddydau, a chan y cleient, a rhoesom aseswyr priodol i mewn ar bob cam. Yr oedd y cleient wedi gweithredu'n briodol beth bynnag, er enghraifft drwy benodi Deloitte and Touche i adolygu ei gynllun busnes. Nid oedd unrhyw gwestiwn o fod angen dweud wrth y ganolfan beth i'w wneud, oherwydd yr oedd eisoes yn ei wneud. Wrth gwrs, yr oedd y niferoedd ymwelwyr yn is na'r disgwyl. Yr oeddent mewn gwirionedd yn nes at chwarter, yn hytrach na phumed ran, o'r amcangyfrifon diwygiedig, yn y diwedd. Wrth gwrs, yr ydych yn iawn. Wrth gwrs, nid oedd y peth yn llwyddiant.

Fodd bynnag, hoffwn ddweud rhywbeth am y wybodaeth yr oeddem yn ei chael. Yr oedd yn anodd ar brydiau cael gwybodaeth gan y ganolfan, ond nid yn amhosibl. Mae'r adroddiad yma'n rhoi enghraifft o fod heb gael cyfrifon rheoli misol am ryw naw mis. Yr oedd oddeutu Gorffennaf 1999, yr wyf yn meddwl, o'm cof. Fodd bynnag, nid yw'n crybwyll, yn dilyn gwaith caled, cyson ar ran swyddogion cyngor y celfyddydau, y cyflwynwyd y wybodaeth ariannol ddiweddaraf y mis wedyn. Felly, ni fyddwn yn

month afterwards, as the result of persistent, hard work on behalf of arts council officers, the up-to-date financial information was supplied. So, I would not say that there was a refusal at any point by the CVA to supply information. It is simply that, not uniquely, when things get difficult in terms of cash, relationships get strained.

[237] **Jocelyn Davies:** So, the information was not forthcoming. Whether it was wilfully withheld or whether there was just a strained relationship, it was not forthcoming. On the estimate of 250,000, I think, actually, that 50,000 is a fifth of 250,000. The revised number went down, but that was still four times as much as the actual numbers that turned out.

Ms Weston: Yes, it was. I am not claiming that it was a success.

[238] **Jocelyn Davies:** No, nobody is claiming that it is a success. I hope that we do not have anybody in front of us who is claiming that this was a success by any means. That really would be stretching it. You have already said that the forecasting of visitor numbers is not a science. So what is it? Is it a guess? For something to be 50,000 in actuality, when the estimate was 250,000—on what do you base that?

Ms Weston: Well, you base it on demographic research and the known propensity, the known percentage within a given population that is likely to visit a gallery or a theatre, or whatever. If you are interested, I have a chart of 10 other major lottery applications—sorry, major lottery-funded attractions—where the estimates were further out than those for the CVA were, but which went in the other direction. If you look at Tate Modern, if you look at the

dweud i'r ganolfan wrthod rhoi gwybodaeth ar unrhyw bwynt. Yn syml, ac nid yn unigryw, pan aiff pethau'n anodd yn nhermau arian, bydd hynny'n gosod straen ar berthynas.

